# Adroddiad i Senedd Cymru

## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd:

## Adolygu Gweithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

**Chwefror 2024**

# Cynnwys


**1. Crynodeb Gweithredol** **4**

**2. Cyflwyniad** **8**

**3. Cefndir** **11**

**4. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd** **13**

**5. Effaith COVID-19 ar y CSHB a'r Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol** **14**

**6. Adolygu'r modd y caiff Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB eu cyflawni** **20**

Adolygu'r Canllawiau Statudol 20

Gweithredu'r CSHB 21

Hawl i Ymateb 21

Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 22

Adolygu Gweithrediad y CSHB a Gweithrediad y System Apelio 23

Hyrwyddo'r CSHB 24

**7. Pen-blwydd y CSHB yn 10 Oed** **28**

**8. Adolygu Swyddogaethau'r Awdurdodau Lleol** **32**

**9. Gorfodi** **38**

**10. Adolygu Gweithrediad y System Apelio** **40**

Apeliadau 40

Cais i Gyhoeddi'r Sgôr yn Gynnar 42

Ceisiadau am Arolygiadau Ail-sgorio 43

**11. Effaith y CSHB** **45**

Cydymffurfiaeth Busnesau Bwyd 45

Ymwybyddiaeth Defnyddwyr 47

Gwerth y CSHB 48

**12. Cysondeb** **51**

**13. Datblygiadau'r CSHB yn y dyfodol** **55**

Arddangos Sgoriau Ar-lein 55

**14. Casgliadau** **57**

**15. Argymhellion** **60**

**Atodiad 1 – Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion o Adroddiadau Cynharach** **61**

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gynnal adolygiad o'r gwaith o weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) statudol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf pan ddechreuodd y CSHB, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae hefyd yn ofynnol i'r ASB adolygu gweithrediad y system apelio bob blwyddyn. Mae'n rhaid gosod yr adroddiadau adolygu hyn gerbron Senedd Cymru, ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

1.2. Mae'r adolygiad tair blynedd hwn o weithrediad y CSHB statudol wedi'i baratoi i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2023. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys adolygiad blynyddol pellach o weithrediad y system apelio, gan gwmpasu'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023.

1.3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg o weithgarwch yr ASB a Gweinidogion Cymru, ac yn amlinellu sut yr aeth awdurdodau lleol ati i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am waith ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau bwyd.

1.4. Wrth ystyried yr holl fusnesau bwyd a oedd â sgôr hylendid bwyd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023, mae gan 72.4% ohonynt sgôr o '5' (Da Iawn). Mae busnesau bwyd yng Nghymru sy'n cydymffurfio, hynny yw, y busnesau hynny sydd â sgôr o '3' (Boddhaol ar y cyfan), '4' (Da) neu '5' (Da Iawn), yn cyfrif am 96.7% o'r holl fusnesau bwyd â sgôr.

1.5. Gan fod yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r tair blynedd diwethaf, mae'r pandemig COVID-19, yn ystod y cyfnod hwn, wedi parhau i effeithio ar waith awdurdodau lleol o gynnal rhaglenni arolygu rheolaidd ac ar weithrediad y CSHB. Cyn y pandemig, roedd disgwyl i awdurdodau lleol gynnal yr holl reolaethau swyddogol ar fwyd a bennir mewn deddfwriaeth, a hynny'n unol â

Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod). Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, cafodd adnoddau awdurdodau lleol eu dargyfeirio oddi wrth Dimau Bwyd er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19 a dyletswyddau eraill nad ydynt yn ymwneud â bwyd.

1.6. Cyhoeddwyd Cynllun Adfer yr ASB (y Cynllun) ar 16 Mehefin 2021, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023. Yn y Cynllun, amlinellodd yr ASB ei chyngor a'i chanllawiau ar gyfer ailddechrau'r gwaith o gynnal arolygiadau wedi'u rhaglennu yn unol â'r Cod. Heb os, mae'r amser a dreuliwyd gan awdurdodau lleol yn ymateb i'r pandemig ac yn ail-alinio â'r Cod wedi cael effaith ar weithrediad arferol y CSHB.

1.7. Yn unol â'r cyngor a'r canllawiau yn y Cynllun, mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i ail-alinio â'r amlder ymyrryd a darpariaethau eraill a nodir yn y Cod, er gwaethaf yr heriau niferus a wynebwyd yn ystod y cyfnod adfer, gan gynnwys pwysau ar adnoddau.

1.8. Ym mis Chwefror 2023, rhoddwyd gwybod i awdurdodau lleol y byddai'r Cynllun yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023, ac y dylent fod yn ail-alinio eu gwasanaethau â'r Cod. Daeth y cynllun i ben oherwydd y gwaith cadarnhaol a wnaed gan awdurdodau lleol ac oherwydd iddynt gyflawni'r cerrig milltir a osodwyd arnynt, sef cynnal ymyriadau unwaith eto yn y busnesau hynny sy'n peri'r risg fwyaf/nad ydynt yn cydymffurfio. Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd o ran dychwelyd i'r lefelau arolygu arferol ar gyfer busnesau risg is.

1.9. Fel y manylir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, bu gostyngiad yn nifer yr arolygiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, yn arbennig rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2023, o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig.

1.10. Wrth adolygu'r gwaith o weithredu'r system apelio, canfuwyd bod awdurdodau lleol yng Nghymru, rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023, yn gweithredu'r CSHB i raddau helaeth yn unol â'r Ddeddf a'r canllawiau

statudol. Cafodd pedwar o'r 75 o apeliadau a ddaeth i law eu pennu y tu allan i'r cyfnod o 21 diwrnod. Mae apeliadau yn erbyn sgoriau yn cyfrif am lai nag 1% o'r 8,312 o fusnesau a gafodd sgôr o '0' i '4' ym mis Tachwedd 2023. O'r 75 o apeliadau a ddaeth i law, nid arweiniodd 59 (79%) ohonynt at unrhyw newid i'r sgôr, ond arweiniodd 16 (21%) ohonynt at newidiadau i'r sgôr hylendid bwyd. O'r sgoriau a newidiodd, gostyngodd un a chafodd y 15 busnes arall sgôr uwch.

1.11. Er bod yr adolygiad wedi canfod bod nifer yr apeliadau wedi aros yn gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd llai o apeliadau yn ystod cyfnod tair blynedd yr adroddiad hwn o gymharu â'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2020, sef cyfnod yr adroddiad a osodwyd yn 2021. O ran y tair blynedd flaenorol, daeth 224 o apeliadau i law o gymharu â 176 rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2023. Mae'n debyg bod hyn oherwydd gostyngiad yn nifer y sgoriau a gyhoeddwyd, ac felly yn nifer yr apeliadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r sgoriau hyn. Mae'r pandemig hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i gasglu data llawn rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, ni ofynnwyd am ddata llawn gan awdurdodau lleol a fyddai wedi'i ddefnyddio i lywio canfyddiadau'r adroddiad hwn.

1.12. Cyn y pandemig, roedd 100 o apeliadau yn yr adroddiad ar gyfer 2018, 94 yn adroddiad 2019 a 98 yn yr adroddiad ar gyfer 2020. Ers y pandemig, mae 32 o apeliadau wedi'u cofnodi yn yr adroddiad ar gyfer 2021, 26 yn yr adroddiad ar gyfer 2022, 75 yn yr adroddiad ar gyfer 2023 a hefyd 75 yn adroddiad eleni, hynny yw ar gyfer 2024.

1.13. Mae'r CSHB yng Nghymru yn parhau i gael effaith gadarnhaol, gyda nifer y busnesau bwyd sy'n ennill y sgôr uchaf yn cynyddu bron i dri phwynt canrannol o 69.5% i 72.4% o gymharu â mis Tachwedd 2020. Mae ymwybyddiaeth o'r CSHB yn bwysig i hybu cydymffurfiaeth â safonau hylendid bwyd, a gwnaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2023 ganfod bod mwy na naw o

bob deg (92%) o ddefnyddwyr yng Nghymru wedi clywed am y CSHB, gyda 91% yn gyfarwydd â’r sticeri gwyrdd a du.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Ym mis Tachwedd 2013, cafodd Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) statudol ei gyflwyno o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Roedd hyn yn adeiladu ar y CSHB anstatudol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010.

2.2. Pwrpas y CSHB yw galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ble maent yn bwyta neu'n siopa am fwyd, a thrwy'r penderfyniadau hyn, annog busnesau i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr (ar ffurf sgôr hylendid bwyd) (Ffigur 1) am safonau hylendid busnesau bwyd adeg eu harolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar asesiad o dair sgôr gyfansoddol sy'n ymwneud ag arferion hylendid, strwythur a hyder mewn rheolaeth. Mae'r sgôr hylendid bwyd a roddir yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad ac i ba raddau y mae'r busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd.

### Ffigur 1 – Sticeri'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd



2.3. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithredu'r CSHB ac yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sy'n cyflenwi bwyd i'r defnyddiwr terfynol arddangos eu sgoriau hylendid bwyd. Ym mis Tachwedd 2014, ehangwyd cwmpas y CSHB i gynnwys sefydliadau bwyd sy'n ymwneud â masnach busnes-i-fusnes yn unig. Mae'r CSHB hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd tecawê yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gyhoeddi datganiad dwyieithog ar rai deunyddiau cyhoeddusrwydd copi caled sy'n cyfeirio cwsmeriaid at y wefan sgoriau hylendid bwyd. Mae'r CSHB hefyd yn gosod rhwymedigaeth ar weithredwyr busnesau bwyd i ddarparu gwybodaeth ar lafar am sgôr hylendid bwyd y busnes os gofynnir amdano. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol arolygu busnesau bwyd yn eu hardal a phennu sgoriau hylendid bwyd, gan ddefnyddio meini prawf a gyhoeddir gan yr ASB. Yna rhoddir sticer (neu sticeri) i'r busnes bwyd sy'n dangos ei sgôr hylendid bwyd. Mae'n rhaid i'r busnes ei arddangos mewn man amlwg lle gall defnyddwyr ei ddarllen yn hawdd cyn iddynt fynd i mewn i'r sefydliad.

2.4. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu mesurau diogelu ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd, a hynny i sicrhau bod y CSHB yn deg i fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i apelio yn erbyn eu sgôr hylendid bwyd os ydynt o'r farn ei bod yn annheg; yr hawl i ymateb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r sgôr hylendid bwyd ar wefan yr ASB; a'r gallu i ofyn am ymweliad ail-sgorio os ydynt wedi cymryd camau i wella'r safonau hylendid. O dan y Ddeddf, yr awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd sy'n gyfrifol am benderfynu ar apeliadau. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n galluogi person ar wahân i'r awdurdod lleol i benderfynu ar apeliadau.

2.5. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr ASB i gynnal adolygiad o'r modd y caiff y CSHB ei weithredu, a hynny blwyddyn ar ôl ei gyflwyno, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae dyletswydd hefyd ar yr ASB i adolygu gweithrediad y system apelio bob blwyddyn. Ers mis Chwefror 2015, mae adroddiadau wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru, gyda chopi'n cael ei anfon at Weinidogion Cymru. Yna caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi ar wefan Senedd Cymru.

2.6. Dyma'r pedwerydd adroddiad sy'n adolygu gweithrediad y CSHB statudol a'r system apeliadau yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiadau blaenorol ym mis Chwefror 2015, 2018, a 2021.

2.7. Mae adroddiadau blynyddol dilynol ar weithrediad y system apelio wedi'u cyhoeddi ym mis Chwefror bob blwyddyn, ac maent yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

2.8. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i fodloni gofynion y Ddeddf, ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad y CSHB, gweithrediad y system apelio, ac mae'n rhoi diweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion mewn adroddiadau blaenorol.

## 3. Cefndir

3.1. Gwnaeth y Ddeddf a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 bennu gofynion y CSHB. Pan lansiwyd y CSHB statudol ym mis Tachwedd 2013, roedd yn berthnasol i bob sefydliad a oedd yn cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ar yr amod nad oeddent wedi'u heithrio gan Reoliadau 2013.

3.2. Ym mis Tachwedd 2014, estynnwyd cwmpas y CSHB i gynnwys sefydliadau bwyd sy'n ymwneud â masnach busnes-i-fusnes, er enghraifft gweithgynhyrchwyr bwyd a phecynwyr bwyd. Ym mis Tachwedd 2016, datblygwyd y CSHB ymhellach drwy gyflwyno Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 (Rheoliadau 2016), sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd tecawê yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gyhoeddi datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd copi caled penodol.

3.3. Mae'r ASB a Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi cynhyrchu canllawiau statudol ar gyfer y CSHB. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried hyn wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

3.4. Yn 2016, dilynodd Gogledd Iwerddon esiampl Cymru drwy lansio ei CSHB statudol ei hun a ddaeth i rym ar 7 Hydref 2016. O'r herwydd, daeth hi'n orfodol i gynghorau dosbarth weithredu'r CSHB ac i fusnesau bwyd arddangos eu sgoriau hylendid bwyd.

3.5. Yn Lloegr, nid oes rhaid i fusnesau arddangos eu sgoriau ar eu safleoedd, ond cânt eu hannog i wneud hynny. Mae Cynllun Corfforaethol Tair Blynedd yr ASB ar gyfer 2023 – 2026 yn nodi uchelgais i weithio tuag at ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn orfodol i arddangos sgoriau hylendid bwyd yn Lloegr. Bydd amserlen y gwaith hwn yn dibynnu ar ddod o hyd i lwybr addas i greu deddfwriaeth sylfaenol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth.

3.6. Mae cynllun ag amcanion tebyg ar waith yn yr Alban, sef y Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS). Menter bartneriaeth yw hon rhwng awdurdodau lleol a Safonau Bwyd yr Alban (FSS). Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu mwy na 54,000 o sefydliadau bwyd ar draws pob un o'r 32 awdurdod lleol yn yr Alban. Fel yn Lloegr, nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgôr. Fodd bynnag, gofynnir i fusnesau ei harddangos yn wirfoddol mewn man amlwg ar y safle sy'n hawdd i gwsmeriaid ei gweld.


# 4. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

4.1. Diben y CSHB yw helpu defnyddwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch ble maen nhw'n bwyta neu'n siopa am fwyd a, thrwy'r dewisiadau hynny, annog busnesau bwyd i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn trwy roi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am safonau hylendid busnes bwyd pan gaiff ei arolygu, a hynny ar ffurf sgôr rhwng '0' (Angen Gwella ar Frys) a '5' (Da Iawn). Yng Nghymru, mae'r CSHB yn cael ei weithredu drwy bartneriaeth rhwng yr ASB, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

4.2. Mae gwybodaeth fanylach am y CSHB ar gael ar wefan yr ASB.

4.3. Wedi i'r CSHB statudol gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2013, mae cydymffurfiaeth ymhlith busnesau bwyd wedi gwella'n barhaus. Ym mis Tachwedd 2023, o'r 30,102 o fusnesau â sgôr yng Nghymru, roedd gan 29,099 (96.7%) sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan) neu uwch. Roedd gan 21,790 (72.4%) o fusnesau bwyd y sgôr uchaf o '5' (Da Iawn), a dim ond 48 (0.2%) o fusnesau oedd â'r sgôr isaf o '0' (Angen Gwella ar Frys). Mae Ffigur 2 isod yn dangos y gwelliant parhaus hwn yn nosbarthiad y sgoriau yng Nghymru.

**Ffigur 2. Sgoriau Hylendid Bwyd yng Nghymru (2013-2023)**



# 5. Effaith COVID-19 ar y CSHB a'r Cynllun Adfer ar gyfer Awdurdodau Lleol

5.1. Drwy gydol y pandemig COVID-19, gwnaeth yr ASB addasu'r hyn yr oedd yn ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol oherwydd yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â bwyd, a hynny wrth iddynt orfod blaenoriaethu diogelu cymunedau rhag COVID-19. Gwnaeth hyn alluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau lle'r oedd y risg uchaf neu at sefydliadau nad oeddent yn cydymffurfio, gan ohirio ymyriadau wedi'u cynllunio, yn enwedig ar gyfer sefydliadau risg is. Gan fod rhaglenni ymyriadau cynlluniedig awdurdodau lleol yn sylfaen i'r CSHB, mae'n amlwg bod hyn wedi effeithio ar weithrediad rheolaidd y CSHB.

5.2. Ym mis Mai 2021, cytunodd Bwrdd yr ASB ar y Cynllun a oedd yn nodi canllawiau a chyngor yr ASB i awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023. Y nod oedd sicrhau, yn ystod y cyfnod adfer, fod adnoddau awdurdodau lleol yn cael eu targedu lle'r oeddent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth ddarparu mesurau diogelu ar gyfer iechyd y cyhoedd a diogelu defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Un o amcanion allweddol y Cynllun oedd galluogi'r CSHB i weithredu'n fwy rheolaidd a diogelu ei hygrededd.

5.3. Roedd y Cynllun yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn dechrau o fannau cychwyn gwahanol o ran yr effaith yr oedd COVID-19 wedi'i chael, yr heriau y byddent yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod adfer, a'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Roedd yn nodi'n glir y dylai awdurdodau lleol, lle'r oedd yn bosib, weithio'n gynt i ail-alinio â'r amlderau ymyrryd a'r darpariaethau eraill a nodir yn y Cod.


5.4. Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Gorffennaf 2022, cynhaliodd timau archwilio'r ASB raglen o asesiadau o berfformiad awdurdodau lleol yn erbyn gofynion y

Cynllun. Rhoddwyd gwiriadau sicrwydd i grŵp cynrychioliadol o awdurdodau lleol, a gynhaliwyd o bell ac wyneb yn wyneb. Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- cafodd dwy ffactor effaith fawr ar awdurdodau lleol yng Nghymru, sef y ffaith bod aelodau staff allweddol wedi'u secondio i ymateb i COVID-19 a'r ffaith bod cyfyngiadau COVID-19 ar waith am gyfnodau hirach nag yn rhannau eraill o'r DU
- yn ystod y pandemig, cafwyd rhai enghreifftiau gwych o awdurdodau lleol yn cydweithio â thimau eraill y cyngor a thimau iechyd y cyhoedd allanol, asiantaethau gorfodi a'r gwasanaethau brys. Drwy wneud hyn, bu modd iddynt rannu gwybodaeth am fusnesau bwyd lleol, a defnyddio'r wybodaeth honno i gynllunio ymyriadau
- bu modd i'r awdurdodau lleol ddangos eu bod wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu Cam 1 o'r Cynllun, gan flaenoriaethu busnesau bwyd newydd ar gyfer arolygiadau cyntaf a chynllunio eu rhaglenni ymyriadau ar sail risg
- sicrhaodd awdurdodau lleol fod y CSHB yn parhau i gael ei gyflawni yn unol â'r Cynllun

5.5. Ym mis Chwefror 2023, rhoddwyd cyngor i awdurdodau lleol, sef y byddai'r Cynllun yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023. Roedd hyn oherwydd y gwaith cadarnhaol a wnaed gan awdurdodau lleol ac oherwydd iddynt gyflawni'r cerrig milltir (Ffigur 3) a osodwyd arnynt yn y Cynllun i raddau helaeth, sef cynnal ymyriadau unwaith eto yn y busnesau hynny sy'n peri'r risg fwyaf, gyda chynnydd yn cael ei wneud o ran dychwelyd i'r lefelau arolygu arferol ar gyfer busnesau risg is.


## Ffigur 3 – Cerrig Milltir y Cynllun Adfer




**Sylwch –** mae Ffigur 3 yn dangos dau gam y Cynllun Adfer, gyda cham 1 wedi'i gwblhau erbyn 30 Medi 2021 a cham 2 wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2023. Drwy gydol y cynllun adfer, bu gwaith parhaus ar ofynion cyfreithiol penodol, gwyliadwriaeth, gwaith gorfodi a gwaith ymatebol brys. Cyflwynwyd sgoriau hylendid bwyd newydd, wedi'u hadnewyddu yn dilyn ymyriadau priodol. Roedd Cam 1 yn cynnwys blaenoriaethu busnesau newydd yn seiliedig ar risg, a chynllunio ar gyfer Cam 2 y rhaglen. Roedd Cam 2 yn cynnwys dull graddol o ymdrin ag ymyriadau yn seiliedig ar gategorïau risg busnes.

5.6. Gan fod rhaglenni arolygu awdurdodau lleol yn sylfaen i'r CSHB, cafodd effeithiau ar arolygiadau yn ystod y pandemig effaith ar y CSHB hefyd. Mae Ffigur 4 isod yn dangos nifer y sefydliadau yng Nghymru a gafodd sgôr bob mis yn ystod y pum mlynedd diwethaf.


## Ffigur 4 – Nifer y Busnesau yng Nghymru a Gafodd Sgôr




5.7. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd yn nifer y busnesau a gafodd sgôr hyd at fis Tachwedd 2023, gan adlewyrchu'r effaith y cafodd COVID-19 ar adnoddau awdurdodau lleol drwy gydol 2020 a 2021. Roedd llawer o fusnesau wedi cau am gyfnodau sylweddol, a phenderfynodd busnesau eraill beidio ag agor. Effeithiodd hyn ar allu awdurdodau lleol i gynnal ymyriadau mewn busnesau bwyd, yn ogystal â'u gallu i gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol sy'n cefnogi'r broses o gyhoeddi sgoriau ar wefan y CSHB. Gwnaeth nifer y sgoriau a ddyfarnwyd gynyddu'n raddol wrth i awdurdodau lleol weithredu'r Cynllun a chyfeirio'n ôl at ofynion y Cod o 1 Ebrill 2023.


5.8. Fel y dangosir yn Ffigur 5, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y sefydliadau a gafodd sgôr bob mis gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2020/21 a 2021/22 wrth iddynt roi'r Cynllun ar waith. Gan fod y Cynllun bellach wedi dod i ben, mae awdurdodau lleol yn dechrau bodloni'r amserlenni a nodir yn y Cod ar gyfer sefydliadau risg uchel a chanolig, ac yn ail-alinio â'r amlder ymyrryd ar gyfer pob categori risg arall a amlinellir yn y Cod.

**Ffigur 5 – Nifer y Sefydliadau a Gafodd Sgôr ym mhob Chwarter**




5.9. Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd serth yn nifer y busnesau a gyhoeddwyd fel rhai a oedd yn 'aros am arolygiad', gyda llawer o fusnesau newydd yn aros am eu harolygiad cyntaf. Syrthiodd y nifer hwn yn raddol wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith ac wrth i ymyriadau gael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Mae Ffigur 6 isod yn dangos nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' o fis Tachwedd 2019 i fis Tachwedd 2023.

**Ffigur 6 – Nifer y Busnesau sy'n Aros am Arolygiad**



5.10. Mae Ffigur 6 yn dangos, cyn y pandemig, fod 662 o fusnesau bwyd yn aros am arolygiad ym mis Chwefror 2020. Gwelwyd y nifer uchaf o fusnesau yn aros am arolygiad ym mis Awst 2021, sef 4,596. Ym mis Tachwedd 2023, roedd 2,013 o fusnesau bwyd yn aros am arolygiad.

5.11. Yn unol â'r Cynllun, mae awdurdodau lleol wedi bod yn arolygu sefydliadau busnesau bwyd newydd ac yn blaenoriaethu'r arolygiadau hynny'n seiliedig ar risg. Mae'n bosib y bydd llawer o'r busnesau sy'n aros am arolygiad ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn rhai risg isel ar sail eu gweithgareddau neu efallai y byddant wedi'u heithrio[1] rhag cael eu sgorio o dan y Ddeddf. Mae nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' wedi dechrau gostwng wrth i nifer yr arolygiadau gan awdurdodau lleol gynyddu.

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2903/section/5/made/welsh

# 6. Adolygu'r modd y caiff Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB eu cyflawni

6.1. Mae'r adran hon yn adrodd ar y modd y caiff swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB eu cyflawni, fel y maent yn ymwneud â'u pwerau a'u swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf, yn ystod y cyfnod tair blynedd o 28 Tachwedd 2020 i 27 Tachwedd 2023.

## Adolygu'r Canllawiau Statudol

6.2. O dan Adran 23 o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i'r ASB ac i'r awdurdod bwyd, mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gohiriwyd y gwaith o gyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig Cymru o ganlyniad i'r pandemig.

6.3. Wrth adolygu'r canllawiau, mae'r ASB wedi bod yn chwilio am gyfleoedd i ddiogelu at y dyfodol a chael gwared ar unrhyw ddyblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddogfen yn aros yn gyfredol ac na fydd angen ei diweddaru bob tro y gwneir newidiadau i'r Cod. Gan fod angen adolygu'r Cod o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu arferion gorfodi presennol ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, mae unrhyw ddiwygiadau'n destun ymgynghoriad cyn i Weinidogion Cymru gytuno arnynt a'u cyhoeddi, felly bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw effeithiau ar y CSHB yn cael eu hystyried bob amser.

6.4. Yn ystod 2023, roedd yr ASB wedi bwriadu cyhoeddi'r canllawiau statudol diweddaredig ar gyfer swyddogion awdurdodedig sy'n gweithredu'r CSHB. Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, barnwyd ei bod yn briodol cynnal adolygiad llawn o'r canllawiau statudol ar ran Gweinidogion Cymru.

6.5. Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, mae'r ASB yn bwriadu adolygu a diwygio'r canllawiau statudol yn llawn. Mae'r ASB yn bwriadu sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol i adolygu'r

canllawiau, er mwyn sicrhau y gallant gynorthwyo swyddogion awdurdodedig i roi'r Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig ar waith yn llwyddiannus.

### Argymhelliad 1:

Argymhellir bod yr ASB yn cynnal adolygiad o'r canllawiau statudol gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, argymhellir bod yr ASB yn sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol i adolygu'r canllawiau, er mwyn sicrhau y gallant gynorthwyo swyddogion awdurdodedig i roi'r Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig ar waith yn llwyddiannus.

## Gweithredu'r CSHB

6.6. Mae'r ASB yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Adran 6 o'r Ddeddf ynghylch hysbysu a chyhoeddi sgoriau hylendid bwyd. Mae sgoriau busnesau bwyd wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ASB cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ASB am y sgôr drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn. Er mwyn helpu i roi'r CSHB ar waith yn effeithiol, mae'r ASB hefyd wedi sicrhau bod sticeri sgôr hylendid bwyd ar gael yn rhwydd i awdurdodau lleol yn ddi-dâl, fel y bo'n ofynnol gan Adran 14(1)(h) o'r Ddeddf.

## Hawl i Ymateb

6.7. Mae'r hawl i ymateb yn caniatáu i'r gweithredwr busnes bwyd ddweud wrth ddefnyddwyr am y camau a gymerwyd yn dilyn yr arolygiad a sut mae wedi gwella'r safonau hylendid. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r gweithredwr busnes bwyd roi gwybod am unrhyw amgylchiadau anarferol ar adeg yr arolygiad.

6.8. O dan Adran 11(3) o'r Ddeddf, rhaid i awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadau o'r fath ymlaen at yr ASB a gaiff gyhoeddi'r sylwadau ar ei gwefan ynghyd â'r sgôr hylendid bwyd y mae'r sylwadau'n ymwneud â hi.

6.9. Gall y gweithredwr busnes bwyd gyflwyno ei sylwadau 'hawl i ymateb' ar unrhyw adeg pan fydd y sgôr yn ddilys, p'un a yw wedi cyflwyno apêl neu beidio. Bydd y sylwadau'n aros ar y wefan hyd nes y rhoddir sgôr hylendid bwyd newydd.

6.10. Cyhoeddwyd tri sylw 'hawl i ymateb' rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021, pump rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022, a 23 rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023. Mae hyn yn cyfateb i 31 o sylwadau 'hawl i ymateb' a gyhoeddwyd o gymharu â'r 48 a adroddwyd ar gyfer y cyfnod tair blynedd blaenorol rhwng 2017 a 2020.

6.11. Yn sgil gohirio arolygiadau gan awdurdodau lleol dros gyfnod yr adroddiad hwn, bu gostyngiad yn nifer y sgoriau hylendid bwyd sydd wedi newid. Ar gyfer y busnesau hynny y mae eu sgôr wedi newid, mae'n bosib eu bod wedi canolbwyntio ar amrediad o ffactorau eraill yn ymwneud â'r pandemig, yn hytrach na chyflwyno hawl i ymateb.

## Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)

6.12. Cyhoeddir y Cod o dan Adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 6(1) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a Rheoliad 24(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n rhoi'r grym i Weinidogion Cymru gyhoeddi Codau Ymarfer sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth honno gan awdurdodau lleol.

6.13. Mae'r Cod yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau bwyd swyddogol, ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i orfodi gofynion cyfraith bwyd, gan roi sylw dyledus i ddarpariaethau perthnasol y Cod.

6.14. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r System Sgorio Hylendid Bwyd a nodir yn Atodiad 1 i'r Cod wrth baratoi ac adolygu eu rhaglen ar gyfer arolygu busnesau

bwyd at ddibenion sgorio. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo Atodiad 1 sydd wedi'i gyhoeddi gan yr ASB, o dan Adran 14(1)(b) o'r Ddeddf.

6.15. Ers yr adroddiad adolygu diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, mae adolygiad o'r Cod wedi'i gynnal. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ffurfiol am gyfnod o 14 wythnos ar 18 Rhagfyr 2020, a oedd yn ceisio barn rhanddeiliaid ar gynigion i ddiwygio'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Canllawiau Ymarfer) yng Nghymru, a gweithredu gwybodaeth a sgiliau'r ASB ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gweithgareddau eraill (Fframwaith Cymwyseddau) yn effeithiol.

6.16. Y prif newidiadau yn y diwygiad hwn o'r Cod oedd cefnogi awdurdodau lleol i allu recriwtio, hyfforddi a defnyddio swyddogion ychwanegol fel y gallent ymdrin â'r cynnydd yn eu llwyth gwaith i ymgymryd â gofynion ychwanegol wrth i'r DU adael yr UE. Diben arall y diwygiadau oedd helpu i fynd i'r afael â'r gostyngiadau mewn adnoddau o ganlyniad i adleoli staff ac absenoldebau staff yn ystod y pandemig. Er na wnaed unrhyw newidiadau i'r System Sgorio Hylendid Bwyd, gofynnwyd am farn hefyd ar newidiadau eraill a oedd wedi'u cynnig i sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu blaenoriaethau, polisi a gofynion deddfwriaethol.

6.17. Cyhoeddwyd y dogfennau newydd ar 29 Gorffennaf 2021 gan ddisodli'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer blaenorol a gyhoeddwyd yn 2018 a 2012 yn ôl-weithredol.

## Adolygu Gweithrediad y CSHB a Gweithrediad y System Apelio

6.18. Daeth y trydydd adolygiad o weithrediad y CSHB, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, i'r casgliad fod awdurdodau lleol yn parhau i fod wedi'u hymrwymo'n gadarn i gynnal y CSHB a'u bod yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol, ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. At ei gilydd, cyn mis Mawrth 2020, roedd awdurdodau lleol yn cynnal y CSHB yn unol â gofynion a chanllawiau cyfreithiol.

6.19. Gwnaeth yr adolygiad tair blynedd diwethaf yn 2021 ganfod bod Gweinidogion Cymru a'r ASB yn parhau i gefnogi gweithrediad effeithiol a chyson y CSHB yng Nghymru ac yn cyflawni eu swyddogaethau fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Nodwyd saith argymhelliad yn yr adolygiad hwn ynghylch y gwaith parhaus o weithredu'r CSHB yng Nghymru.

6.20. Mae'r ASB wedi cynnal adolygiadau blynyddol o weithrediad y system apelio yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022 a mis Chwefror 2023. Mae'r adroddiadau'n cadarnhau bod awdurdodau lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gweithredu'r darpariaethau apelio yn unol â'u rhwymedigaethau statudol ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan yr ASB. Mae cyfradd yr apeliadau yn erbyn sgoriau'n parhau i fod yn isel, ar gyfartaledd o 0.6% (0.3% yn 2022 a 0.85% yn 2023) rhwng y ddwy flynedd. Ar gyfartaledd, gwnaeth 22% (31% yn 2022 ac 13% yn 2023) o'r apeliadau a wnaed i awdurdodau lleol arwain at newidiadau mewn sgoriau hylendid bwyd. Yn sgil y ddau adolygiad hyn, gwnaed deg argymhelliad.

6.21. Cwblhawyd yr holl adroddiadau o fewn yr amserlenni a amlinellir yn y Ddeddf. Cawsant eu gosod gerbron Senedd Cymru a darparwyd copïau i Weinidogion Cymru.

6.22. Mae'r holl argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau wedi'u nodi yn Atodiad 1, ynghyd â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw.

## Hyrwyddo'r CSHB

6.23. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae'r ASB wedi datblygu sawl ymgyrch amlsianel sy'n canolbwyntio ar y CSHB wedi'u hanelu at ddefnyddwyr a busnesau fel ei gilydd. Roedd yr ymgyrchoedd penodol ar gyfer defnyddwyr yn cynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn bennaf a oedd yn defnyddio postiadau taledig a chynnwys am ddim ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgyrchoedd yn canolbwyntio ar ddyddiadau

arwyddocaol i helpu i ehangu’r negeseuon o wirio sgôr cyn bwyta allan neu brynu bwyd. Roedd yr ymgyrchoedd a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr yn cynnwys:

- hyrwyddo’r CSHB o gwmpas Dydd San Ffolant, gan gynnwys bwyta allan a siopau tecawê rhwng mis Ionawr a mis Chwefror
- y CSHB mewn mannau llai amlwg, gan gynnwys marchnadoedd dros dro, sinemâu ac archfarchnadoedd yn ystod mis Mai a mis Mehefin
- trefnu partïon Nadolig a gwirio’r sgôr yn ystod mis Rhagfyr

6.24. Cynhaliodd yr ASB un ymgyrch penodol i fusnesau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Cafodd ymgyrchoedd arfaethedig eraill eu gohirio yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith y pandemig ar fusnesau bwyd ac awdurdodau lleol. Lansiwyd yr ymgyrch penodol i fusnesau, o’r enw ‘Yma i Helpu’, ym mis Mai 2023. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ddatblygu Hyb Canllawiau i Fusnesau newydd, gan symleiddio profiad y defnyddiwr drwy ddangos y canllawiau a’r cyngor mwyaf poblogaidd i fusnesau bwyd ar un dudalen we. Defnyddiwyd astudiaethau achos ar ffurf blogiau i ddangos bod yr ASB ac awdurdodau lleol yma i helpu busnesau i wneud y peth iawn, gan ganolbwyntio ar fanteision sgoriau hylendid da. Datblygodd yr ASB astudiaethau achos a oedd yn canolbwyntio ar ddau fusnes o Gymru, ac un astudiaeth achos ar Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. Rhannwyd y rhain ar flog yr ASB a thynnwyd sylw atynt ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ASB. Cafodd y blogiau hyn dros 800 o ymweliadau a 630 o ymwelwyr unigryw.

Ar gyfer pob ymgyrch sy’n canolbwyntio ar y CSHB, mae’r ASB yn datblygu pecynnau cymorth cyfathrebu i alluogi awdurdodau lleol i rannu cynnwys drwy eu sianeli eu hunain.

6.25. Mae negeseuon ynglŷn â’r CSHB hefyd wedi’u cynnwys mewn ymgyrchoedd eraill a gweithgarwch yn y cyfryngau fel neges eilradd, gan bwysleisio pa mor bwysig yw hi i ddefnyddwyr wirio’r sgoriau. Mae’r CSHB wedi’i grybwyll mewn

cyfweliadau â ‘Bore Cothi’ a ‘Prynhawn Da’ sy’n canolbwyntio ar ddiogelwch bwyd cyffredinol defnyddwyr. Roedd hefyd yn rhan o gyfweliad manwl gyda ‘Y Byd ar Bedwar’ yn ystod rhaglen a oedd yn ymchwilio i fusnes bwyd am werthu cig a oedd wedi mynd heibio i’w ddyddiad ‘defnyddio erbyn’.

6.26. Mae’r ASB yn cymryd rhan mewn digwyddiadau amrywiol bob blwyddyn, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a’r Eisteddfod Genedlaethol, sef rhai o’r digwyddiadau mwyaf proffil uchel yng Nghymru. Prif nod mynd i’r digwyddiadau hyn yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r ASB a chaniatáu i staff ryngweithio â rhanddeiliaid allweddol a’r cyhoedd yn gyffredinol. Mae’r ASB yn sôn am y CSHB yn ystod y digwyddiadau hyn fel un o’i negeseuon hollbwysig, gan egluro pam dechreuwyd y CSHB a beth yw ei arwyddocâd i ddefnyddwyr a busnesau. Yn 2022, gwnaeth staff yr ASB ymgysylltu â dros 3,000 o bobl dros 12 diwrnod o ddigwyddiadau’r haf mewn stondin a ddyluniwyd yn arbennig gyda rhan benodol o’r stondin yn canolbwyntio ar y CSHB, gan alluogi defnyddwyr a busnesau i ddeall y CSHB yn well.

6.27. Rhwng 28 Tachwedd 2020 a 4 Gorffennaf 2023[2], cafwyd tua 400,000 o ymweliadau â’r wefan sgoriau hylendid o leoliadau yng Nghymru, gyda chyfanswm o 10.7 miliwn o ymweliadau â thudalennau’r wefan. Nosweithiau Gwener a Sadwrn oedd y cyfnodau mwyaf poblogaidd i ddefnyddwyr ymweld â’r wefan, gan gyfateb i oriau gweithredu brig busnesau bwyd. Gwnaeth dros 80% o’r defnyddwyr ddefnyddio’u ffôn symudol i fynd ar y wefan.

6.28. Gwnaeth dros 90% o’r ymwelwyr agor y wefan sgoriau hylendid yn uniongyrchol neu ddod o hyd iddi drwy chwilio amdani ar beiriant chwilio. Yng Nghymru, cafodd bron i 23,000 o ymwelwyr eu cyfeirio at y wefan sgoriau o wefannau eraill. Cyrhaeddodd ychydig yn llai na 24% o’r ymwelwyr hyn y wefan

[2] **Sylwer:** Ni all yr ASB ddarparu ystadegau ar ôl 4 Gorffennaf. Daw’r ystadegau hyn o Google Universal Analytics a gafodd ei ddiffodd ar 4 Gorffennaf 2023. Cyflwynwyd Google Analytics 4 (GA4) ym mis Awst, ac felly mae bron i ddeufis o ddata ar goll. Nid oes modd cymharu data GA4 â data Universal Analytics.

o dudalennau cyfryngau cymdeithasol a 4.5% o’r cyfryngau lleol. Daeth 32% o’r atgyfeiriadau hyn gan agregwyr ar-lein (Deliveroo, Just Eat, Uber Eats).

## 7. Pen-blwydd y CSHB yn 10 Oed

7.1. Ddydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023, roedd hi'n 10 mlynedd ers i'r Senedd gyflwyno'r CSHB statudol yng Nghymru o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

7.2. Roedd y pen-blwydd 10 mlynedd yn gyfle perffaith i Lywodraeth Cymru, yr ASB ac awdurdodau lleol yng Nghymru ddathlu'r CSHB. Gwnaeth ganiatáu i bob partner arddangos llwyddiant y CSHB a dangos sut y mae wedi helpu i wella cydymffurfiaeth o fewn y diwydiant bwyd dros y degawd diwethaf.

7.3. Mae'r CSHB wedi bod yn faes gwaith blaenllaw ac mae'n dangos y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, yr ASB ac awdurdodau lleol. Roedd yr ymgyrch pen-blwydd yn gyfle i ddathlu'r gwaith partneriaeth hwn a'r rhan amhrisiadwy y mae awdurdodau lleol wedi'i chwarae wrth weithredu'r CSHB.

7.4. Ers ei gwneud yn ofynnol i arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru, mae mwy o dryloywder i ddefnyddwyr, yn enwedig ar gyfer safleoedd â sgoriau is. Mae tystiolaeth o werthusiad o'r CSHB yn dangos bod mwy o dryloywder yn rhoi grym i ddefnyddwyr, sydd yn ei dro yn cymell busnesau i wella a chynnal cydymffurfiaeth. Ym mis Tachwedd 2023, ymhlith yr holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru, roedd gan 72.4% ohonynt sgôr o '5'. Mae nifer y busnesau bwyd yng Nghymru sy'n cydymffurfio yn cyfrif am 96.7% o'r holl fusnesau bwyd â sgôr. Cyn cyflwyno'r CSHB statudol, ym mis Hydref 2013, cafodd 44.4% o fusnesau sgôr o '5', ac roedd 86.5% o fusnesau'n cydymffurfio.

7.5. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y busnesau â'r sgôr isaf o '0', '1' a '2' wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r CSHB statudol. Ym mis Hydref 2013, y ffigur hwn oedd 13.4% o'r 22,277 o sefydliadau â sgôr. Ym mis Tachwedd 2023, ymhlith y 30,102 o fusnesau bwyd â sgôr, roedd gan 3.4% ohonynt y sgoriau isaf. Er bod 7,825 o sefydliadau ychwanegol â sgôr yng Nghymru dros y 10

mlynedd diwethaf, mae hyn yn dangos bod busnesau bwyd yn ymdrechu i gael sgôr uwch o ‘3’ o leiaf.

7.6. I nodi’r pen-blwydd, mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio CSHB Cymru Gyfan, gwnaeth yr ASB sefydlu grŵp ffocws bach o gynrychiolwyr o’r awdurdodau lleol i gyfrannu at ddatblygu cynllun cyfathrebu i ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu’r CSHB. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pawb a fu’n ymwneud â llwyddiant y CSHB dros y degawd diwethaf yn cael y cyfle i helpu i lunio’r ymgyrch o’r cychwyn cyntaf.

7.7. Lansiwyd yr ymgyrch cyfathrebu ar 27 Tachwedd 2023 ynghyd â phecyn adnoddau yr oedd modd ei addasu a oedd yn cynnwys deunyddiau unigryw (Ffigur 7), y cytunwyd arno gan y grŵp ffocws, i’w ddefnyddio ar draws yr ymgyrch ar bob adnodd. Roedd modd defnyddio’r set hon o ddelweddau i greu adnoddau, a gwnaeth y delweddau hyn sicrhau bod yr ymgyrch yn gyfarwydd, p’un a oeddent i’w gweld ar sianeli awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru neu’r ASB.

### Ffigur 7 – Deunyddiau’r ymgyrch




7.8. Fel rhan o’r ymgyrch, roedd y pecyn adnoddau’n cynnwys negeseuon a delweddau awgrymedig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, templedi ar gyfer datganiadau i’r wasg, stori newyddion gyda lle i awdurdodau lleol ychwanegu dyfyniadau ac ystadegau, logos ar gyfer yr ymgyrch, negeseuon allweddol a chyflawniadau i awdurdodau lleol eu rhannu, yn ogystal â manylion am sut y

gallai'r ASB gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu astudiaethau achos lleol. Yn ystod yr ymgyrch, gwnaeth 46% o'r awdurdodau lleol yng Nghymru rannu'r newyddion ar dudalennau newyddion eu gwefannau eu hunain, a dosbarthodd awdurdodau lleol bum darn ychwanegol o newyddion a gyhoeddwyd mewn ymateb i'w datganiadau i'r wasg.

7.9. Fel rhan o'r ymgyrch, gwnaeth yr ASB weithio ochr yn ochr â busnesau bwyd yng Nghaergybi a Chaerdydd. Mae'r busnesau hyn wedi defnyddio'r CSHB i roi mantais gystadleuol i'w cwmnïau, a datblygwyd astudiaethau achos amdanynt. Yn ogystal â hyn, gwnaeth yr ASB hefyd weithio gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd o awdurdod lleol yng Nghymru i rannu ei safbwynt ar weithredu'r CSHB statudol, a chyhoeddodd flog o'r enw Chwalu'r chwedlau am arolygiadau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

7.10. I nodi 10 mlynedd o'r CSHB, cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu yn y Senedd ar 29 Tachwedd 2023, ochr yn ochr â lansio adroddiad blynyddol yr ASB ar Safonau Bwyd. Cafwyd cynulleidfa niferus yn y digwyddiad, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, yr ASB, aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a rhanddeiliaid amrywiol eraill.

7.11. Cafodd datganiad i'r wasg ar y cyd ei gyhoeddi hefyd i nodi'r achlysur gan Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a'r Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB, a groesawodd y gwelliant sylweddol mewn sgoriau hylendid ar gyfer busnesau bwyd Cymru ar 10fed pen-blwydd y gofyniad cyfreithiol i arddangos sgoriau hylendid bwyd.

7.12. Gwnaeth yr ASB bostio 56 gwaith am yr ymgyrch 'CSHB 10' ac 17 gwaith am y digwyddiad yn y Senedd, sef cyfanswm o 73 o negeseuon. Y diwrnod prysuraf ar gyfer postiadau oedd y diwrnod y lansiwyd yr ymgyrch a'r erthygl newyddion. Drwy gydol yr ymgyrch, cafodd postiadau ar dudalennau X

(Twitter), Facebook, LinkedIn ac Instagram 46,600 o argraffiadau organig ac 862 o ymgysylltiadau â'r postiadau.

# 8. Adolygu Swyddogaethau'r Awdurdodau Lleol

8.1. Mae'r CSHB yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg i asesu cydymffurfiaeth busnesau â'r ddeddfwriaeth er mwyn rhoi sgoriau yn unol â'r Cod. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi busnesau bwyd i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd o fewn cwmpas y CSHB.

8.2. Mae gan yr ASB ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac yn unol â gofynion Rheoliad a gymathwyd (UE) Rhif 2017/625 (OCR) ar reolaethau swyddogol, i fonitro perfformiad awdurdodau lleol ac adrodd arno.

8.3. Yn unol â'r Ddeddf, mae'r materion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth baratoi ac adolygu eu rhaglenni arolygu wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf, fel a ganlyn:

> *2. (1) Rhaid i awdurdod bwyd lunio, ac adolygu, rhaglen sy'n pennu —*
>
> *(a) a oes rhaid i sefydliad busnes bwyd yn ei ardal gael ei arolygu, a*
> *(b) os oes angen arolygiad, mynychder yr arolygiadau.*
>
> *(2) Rhaid i awdurdod bwyd arolygu sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.*
>
> *(3) Wrth lunio ac adolygu ei raglen, rhaid i awdurdod bwyd roi sylw i faterion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.*

8.4. Wrth arfer ei swyddogaeth o fonitro perfformiad awdurdodau lleol, mae'r ASB yn casglu data ar weithgarwch gorfodi mewn busnesau bwyd. Mae'r data hwn yn cynnwys manylion nifer yr arolygiadau hylendid bwyd sydd wedi'u rhaglennu, a mathau eraill o ymyriadau a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd. Fodd bynnag, dylid nodi bod data gorfodi'n cael ei gasglu ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill a mis Mawrth, o gymharu â'r cyfnod adrodd rhwng 28 Tachwedd a 27 Tachwedd ar gyfer yr adroddiad hwn.

8.5. Hyd at 2019/20, roedd data gorfodi cyfraith bwyd blynyddol awdurdodau lleol yn cael ei gasglu'n electronig trwy'r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Yn ystod y pandemig, casglwyd data bob chwarter gan ddefnyddio arolwg ar-lein er mwyn monitro cynnydd yr awdurdodau lleol yn erbyn y Cynllun. Gwnaed hyn am nad oedd modd ad-drefnu LAEMS i gasglu'r data gofynnol. Aethpwyd ati i gasglu'r data cyntaf ar ôl LAEMS ym mis Hydref 2021, gyda chasgliadau data diwedd blwyddyn ym mis Ebrill 2022. Ers hynny, mae gwiriadau pellach er mwyn monitro'r modd o gynnal rheolaethau swyddogol wedi'u cynnal ddwywaith y flwyddyn ym mis Hydref a mis Ebrill. Bydd hyn yn parhau hyd nes y cyflwynir system newydd ar gyfer casglu data.

8.6. Rhoddwyd gwybod i awdurdodau lleol yng Nghymru am y newid hwn ym mis Medi 2021, a rhoddwyd diweddariad trwy Arweinydd Strategol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru ar gyfer Bwyd, Cadeiryddion y Grŵp Labelu a Safonau Bwyd, a'r Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd. Rhoddwyd diweddariad pellach i awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2023 ynghylch amlder arolygon i gael data er mwyn monitro'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol.

8.7. Ar hyn o bryd, mae'r ASB yn ystyried disodli LAEMS a datblygu system fonitro newydd. Mae system newydd yn cael ei datblygu oherwydd y tybir bod y data a gesglir gan y system LAEMS yn gyfyngedig ac nad yw'r system bellach yn bodloni anghenion yr ASB yn llawn. Wrth adolygu'r broses, daeth i'r amlwg fod y data a gasglwyd:

- yn canolbwyntio ar allbynnau, yn hytrach na chanlyniadau a gyflawnwyd
- wedi dyddio erbyn iddo gael ei ddadansoddi gan mai dim ond unwaith y flwyddyn y byddai'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol
- yn gyfyngedig o ran monitro lefelau cydymffurfio busnesau er mwyn rhoi darlun cywir
- yn anghytbwys er mwyn gallu rhoi cyfrif cyfannol o waith ymatebol a wneir gan awdurdodau lleol, er enghraifft, ymdrin â brigiadau mawr o


achosion o wenwyn bwyd, digwyddiadau ac ymchwiliadau ac erlyniadau cymhleth

8.8. Nid oedd yn hawdd ad-drefnu'r system LAEMS gan fod y dechnoleg a ddefnyddir ganddi'n mynd yn hŷn ac yn hŷn, ac nid yw'n cael ei chefnogi mwyach.

8.9. Erbyn diwedd y cyfnod adfer, roedd disgwyl i bob awdurdod lleol ail-alinio â'r Cod ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau risg uchel a chanolig ar gyfer hylendid bwyd, fel y manylir yn Ffigur 6. Ers hynny, mae awdurdodau lleol wedi cael eu cynghori i ail-alinio â'r amlderau ymyrryd yn y Cod ar gyfer pob categori risg.

8.10. Mae Ffigur 8 isod yn dangos perfformiad awdurdodau lleol wrth ddarparu ymyriadau hylendid ar gyfer sefydliadau ym mhob categori risg.

**Ffigur 8 – Ymyriadau Hylendid Bwyd a Gyflawnwyd**




| | 2019/20 | 2022/23 | October 2023* |
|---|---|---|---|
| A | 99.7% | 99.6% | 84.5% |
| B | 98.5% | 99.8% | 82.2% |
| C | 93.2% | 77.1% | 61.8% |
| D | 80.5% | 0.0% | 25.6% |
| E | 82.2% | 0.0% | 12.0% |

***Sylwer** – mae 0% ar gyfer categori D ac E yn 2022/23 yn golygu na chasglwyd data ar % yr ymyriadau a gynhaliwyd gan mai dyna oedd y cyfnod adfer ac nid oedd targed ar gyfer y raddfa risg honno bryd hynny. *Mae data mis Hydref 2023 ar gyfer hanner blwyddyn.*

8.11. Ar y cyfan, llwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni yn erbyn y cerrig milltir yn y Cynllun y llynedd. Rhwng 1 Ebrill 2022 a

31 Mawrth 2023, cynhaliodd awdurdodau lleol 13,291 o ymyriadau hylendid bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 242 o ymyriadau mewn sefydliadau categori A (99.6% o'r sefydliadau a oedd i fod i gael ymyriad)
- 1,381 o ymyriadau mewn sefydliadau categori B (99.8% o'r sefydliadau a oedd i fod i gael ymyriad)
- 7,599 o ymyriadau mewn sefydliadau categori C (77.1% o'r sefydliadau a oedd i fod i gael ymyriad)
- 1,345 o ymyriadau mewn sefydliadau categori D nad oeddent wedi gallu dangos eu bod yn cydymffurfio i raddau helaeth[3] yn ystod eu harolygiad diwethaf
- 2,723 o ymyriadau mewn sefydliadau categori E

8.12. Fodd bynnag, chwe mis ar ôl i gyfnod y Cynllun ddod i ben, nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dal i fod wedi'u hail-alinio ag amlder ymyriadau'r Cod yn y sefydliadau risg is. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, gwnaeth awdurdodau lleol gynnal:

- 84.5% o'r ymyriadau dyledus mewn sefydliadau categori A
- 82.2% o'r ymyriadau dyledus mewn sefydliadau categori B
- 61.8% o'r ymyriadau dyledus mewn sefydliadau categori C
- 25.6% o'r ymyriadau dyledus mewn sefydliadau categori D
- 12% o'r ymyriadau dyledus mewn sefydliadau categori E


8.13. At ei gilydd, dim ond 30.5% o'r ymyriadau dyledus a gyflawnwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 (gan fod nifer y sefydliadau ar eu mwyaf yn y categorïau risg is). Dechreuodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol y cyfnod hwn gydag ôl-groniad mawr o sefydliadau risg is ag ymyriadau'n ddyledus ar eu cyfer, ac

[3] Cydymffurfio i raddau helaeth (Hylendid) yw'r term a ddefnyddir ar gyfer sefydliad sydd â sgôr ymyrraeth o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r rhannau canlynol o'r System Sgorio Hylendid Bwyd y manylir arnynt yn y Cod: Rhan 2: Lefel o Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Hylendid a Lefel o Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Strwythur; a Rhan 3: Hyder mewn Rheolwyr.

mae'r data hwn[4] yn rhoi mwy o dystiolaeth y bydd yn cymryd amser i awdurdodau lleol ddod yn ôl ar y trywydd iawn.

8.14. Er gwaethaf y ffigurau uchod ynghylch nifer yr ymyriadau hylendid bwyd a gyflawnwyd, nid yw'r ASB ar hyn o bryd yn gweld tystiolaeth feintiol o ostyngiad mewn cyfraddau cydymffurfio busnesau. Mae'r data'n dangos bod canran y sefydliadau bwyd sy'n destun arolygiad sgorio ac sy'n ennill sgôr o '3 – Boddhaol ar y cyfan' neu uwch wedi aros yr un fath ar 96.7% ym mis Tachwedd 2020 o gymharu â mis Tachwedd 2023. Mae cyfran y sefydliadau â'r sgôr uchaf o '5 – Da Iawn' wedi cynyddu o 69.5% ym mis Tachwedd 2020 i 72.4% ym mis Tachwedd 2023. Manylir ar hyn yn Ffigur 9 isod:

Ffigur 9 – Sefydliadau 'Boddhaol ar y cyfan' a 'Da Iawn'




8.15. Er bod awdurdodau lleol wedi bodloni gofynion y Cynllun i raddau helaeth, mae yna dal i fod ôl-groniadau mawr o arolygiadau i'w cynnal mewn sefydliadau risg is. Mae data mis Hydref 2023 yn dangos bod awdurdodau lleol yn cael trafferth cynnal yr ystod lawn o ymyriadau a amlinellir yn y Cod. Mae'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf wrth reswm yn cael eu blaenoriaethu; fodd bynnag, mae hyn yn gadael ôl-groniad o sefydliadau risg is nad ydynt o bosib

[4] Cafwyd gafael ar y data hwn o bapur cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023, lle rhoddwyd diweddariad ar berfformiad awdurdodau lleol wrth gynnal gwaith gorfodi cyfraith bwyd dros y flwyddyn ddiwethaf – https://www.food.gov.uk/board-papers/annual-local-authority-performance-review

wedi cael ymyriad ers blynyddoedd maith. Bydd yr ASB yn parhau i fonitro cynnydd awdurdodau lleol unigol a phwysleisio pwysigrwydd arolygiadau er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y CSHB.

8.16. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o swyddogaethau sy'n ymwneud â rhoi gwybod am sgoriau, a gwybodaeth benodol arall, i fusnesau bwyd a'r ASB, ynghyd â'r dull a'r amserlen ragnodedig. Mae'r ASB yn monitro prydlondeb data sgoriau ac, yn gyffredinol, mae'n fodlon bod awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth am sgoriau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

# 9. Gorfodi

9.1. Rhaid i awdurdodau lleol fod â gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau dilynol neu gamau gorfodi a gymerir yn unol â'r Cod, y Canllawiau Ymarfer a'u polisi gorfodi. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hunioni'n effeithiol ac yn brydlon.

9.2. Rhaid i swyddogion awdurdodedig weithredu dull graddol ac addysgol o orfodi, gan symud at gamau ffurfiol dim ond pan na fydd y camau anffurfiol yn cyflawni'r hyn a ddymunir, ac eithrio pan fo amgylchiadau'n nodi risg sylweddol i iechyd neu arferion twyllodrus.

9.3. Lle na chaiff achos o ddiffyg cydymffurfio ei ddatrys yn hawdd neu'n gyflym gan ddefnyddio dull anffurfiol, mae gan swyddogion awdurdodedig y disgresiwn i roi Hysbysiad Cosb Benodedig. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi'r cyfle i fusnes bwyd osgoi unrhyw gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig o dan adran 21 o'r Ddeddf. Mae pwerau'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn caniatáu i awdurdodau lleol fabwysiadu dull graddol o fynnu bod y busnes yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig.

9.4. Gellir rhoi'r hysbysiadau hyn am droseddau fel methu â dangos sticer sgôr dilys yn iawn, methu â darparu'r wybodaeth gywir am sgôr ar lafar ar gais, methu â darparu'r datganiad rhagnodedig ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn y modd gofynnol ac am arddangos gwybodaeth annilys am sgoriau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd. Pan roddir Hysbysiad Cosb Benodedig, mae ffi o £200 yn daladwy, neu £150 os gwneir taliad o fewn 14 diwrnod.

9.5. Rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023, cyhoeddwyd 77 Hysbysiad Cosb Benodedig gan awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda 50 (64.9%) yn talu'r swm gostyngol gan eu bod wedi talu o fewn 14 diwrnod. Mae nifer yr Hysbysiadau

Cosb Benodedig a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cynyddu 31 o gymharu â'r 46 a gyhoeddwyd rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022.

9.6. Oherwydd y pandemig COVID-19 yn 2020 a thrwy gydol 2021, a chyngor yr ASB i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar flaenoriaethu gweithgareddau i gefnogi'r Cynllun, ni ellir gwneud cymhariaeth lawn o'r data hwn dros y tair blynedd diwethaf sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn. Ni chasglwyd y data hwn rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021, ond mae cyfanswm o 123 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u cyhoeddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

9.7. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae 90 (73%) o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u rhoi i fusnesau sydd wedi methu ag arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys yn y lleoliad a'r modd a ragnodwyd yn unol ag adran 9 o'r Ddeddf. Mae 25 (20%) o fusnesau bwyd wedi cael Hysbysiadau Cosb Benodedig am arddangos sticer sgôr hylendid bwyd annilys.

9.8. Yn unol â Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016, mae Hysbysiadau Cosb Benodedig hefyd wedi'u rhoi i 8 (7%) busnes sydd naill ai wedi methu â sicrhau bod eu deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cael eu harddangos mewn man amlwg ac yn cydymffurfio â'r gofynion o ran maint a'r datganiad dwyieithog neu wedi methu â chydymffurfio ag Atodlen 1 i Reoliadau 2016.

9.9. Pan fo methiant bwriadol neu barhaus i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gall awdurdodau lleol ddechrau achos erlyn. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod am dri erlyniad llwyddiannus dros gyfnod tair blynedd yr adroddiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys erlyniadau am droseddau'n ymwneud â methiant i arddangos sgôr ddilys yn gywir. Mewn rhai achosion, roedd troseddau o dan y CSHB wedi'u cynnwys gydag erlyniadau'n ymwneud â throseddau hylendid bwyd o dan ddeddfwriaeth arall.

# 10. Adolygu Gweithrediad y System Apelio

10.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ar gyfer busnesau bwyd er mwyn sicrhau bod y CSHB yn deg. Maent yn cynnwys yr hawl i weithredwr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr, 'hawl i ymateb', a'r cyfle i ofyn am arolygiad ail-sgorio.

## Apeliadau

10.2. Gall gweithredwyr busnesau bwyd apelio i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr wreiddiol yn rhad ac am ddim, ar yr amodau canlynol:

- nid yw'r sgôr yn adlewyrchiad cywir o safonau hylendid bwyd y sefydliad adeg yr arolygiad
- ni chafodd y meini prawf sgorio eu cymhwyso'n gywir wrth gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd.

10.3. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen benodol o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth y sgôr hylendid bwyd i law.

10.4. O dan y Ddeddf, mae'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd yn gyfrifol am benderfynu ar apeliadau a rhaid iddo hysbysu gweithredwr y busnes bwyd a'r ASB am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Fel y nodir yn y Cod, dylai swyddog awdurdodedig, na fu'n ymwneud ag asesu'r sgôr hylendid bwyd wreiddiol sy'n destun apêl, ystyried yr apêl.[5]

10.5. Yn ôl yr wybodaeth am apeliadau sgoriau hylendid bwyd ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2022 i 27 Tachwedd 2023:


[5] https://smartercommunications.food.gov.uk/resource/files/2294 – Unigolyn (boed yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd yn ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu o ran materion sy'n codi o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

- gwnaed 75 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru ar draws 19 o'r 22 awdurdod lleol
- penderfynwyd ar 71 ohonynt o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, gyda phenderfyniad ar y pedwar arall yn cael ei wneud y tu hwnt i'r amserlen statudol
- cyflwynwyd 38 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd gyda sgôr o '0' (Angen Gwella ar Frys), '1' (Angen Gwella yn Sylweddol) neu '2' (Angen Gwella).

10.6. Ar ôl penderfynu ar y 75 apêl, arhosodd 59 o'r sgoriau yr un fath. Arweiniodd 16 apêl ar draws 12 awdurdod lleol gwahanol at newid y sgôr.

10.7. Ar ôl penderfynu ar eu hapeliadau, o'r 3 busnes â sgôr o '1' (Angen Gwella yn Sylweddol), cynyddodd dau i '3' (Boddhaol ar y cyfan), ac un i sgôr o '4' (Da). O'r tri busnes a gafodd sgôr o '2' (Angen Gwella), cynyddodd dau i sgôr o '3' (Boddhaol ar y cyfan) ac un i sgôr o '4' (Da). O'r saith busnes a gafodd sgôr o '3' (Boddhaol ar y cyfan), cynyddodd pump i sgôr o '4' (Da), cynyddodd un i sgôr o '5' (Da Iawn), tra gostyngodd un i sgôr o '2' (Angen Gwella). Cynyddodd y tri busnes a gafodd sgôr o '4' (Da) i gyd i '5' (Da Iawn). Mae'r 16 sgôr a newidiwyd i'w gweld yn Ffigur 10.

**Ffigur 10 – Newidiadau i sgoriau cyn ac ar ôl apelio**



10.8. O'r 75 o apeliadau a ddaeth i law gan fusnesau, roedd 35 wedi'u categoreiddio gan awdurdodau lleol fel bwytai/caffis/ffreuturiau, 8 fel siopau tecawê, 7 fel bwytai ac arlwywyr – arall, 7 fel tafarn/clwb, 7 fel manwerthwyr – arall, 4 fel safleoedd gofal, 3 fel unedau manwerthu bach, 2 fel unedau bwyd symudol, 1 fel gwesty/tŷ llety ac 1 fel gweithgynhyrchwr/pacwr.

10.9. Mae nifer yr ymyriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod adrodd hwn wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r niferoedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel y nodwyd yn adroddiad 2021, daeth 32 o apeliadau i law a chwblhawyd 5,305 o ymyriadau yn ystod y cyfnod adrodd. Ar gyfer adroddiad 2022, daeth 26 o apeliadau i law ar ôl 4,855 o ymyriadau a 75 o apeliadau yn ystod 2023 ar ôl 10,916 o ymyriadau. Mae adroddiad eleni ar gyfer 2024 yn dangos y bu 75 o apeliadau gyda 14,112 o ymyriadau yn cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd.

10.10. Ar ôl arolygiad, bydd yr awdurdod lleol yn uwchlwytho sgôr y busnes i'w chyhoeddi ar [wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd](). Bydd busnesau sy'n cael sgôr o '5 – Da Iawn' yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bydd yr wybodaeth yn cael ei huwchlwytho. Bydd busnesau sy'n cael sgôr o 0-4 yn cael eu cyhoeddi 3-5 wythnos ar ôl dyddiad yr arolygiad er mwyn caniatáu amser i'r busnes apelio.

## Cais i Gyhoeddi'r Sgôr yn Gynnar

10.11. Os bydd gweithredwr busnes bwyd yn gofyn i'w sgôr gael ei chyhoeddi cyn i'r cyfnod apelio ddod i ben, gellir gwneud y cais hwn ar y [ffurflen berthnasol]() a bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r cais ac yn cymryd y camau priodol.

10.12. Cyflwynodd yr ASB y broses hon yn 2019. Yn flaenorol, ni ellid cyhoeddi sgoriau is na '5' ar y wefan nes bod y cyfnod apelio 5 diwrnod wedi dod i ben. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y gweithredwr i apelio. Ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2019, amlygodd adroddiad 2021 y bu 46 o geisiadau i gyhoeddi'r sgôr yn

gynnar ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng mis Hydref 2019 a 27 Tachwedd 2020.

10.13. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, bu 187 o geisiadau gan weithredwyr busnesau bwyd i gyhoeddi eu sgôr yn gynnar. Daeth 123 (66%) o'r ceisiadau hyn gan fusnesau â sgôr o '4', 58 (31%) gan fusnesau â sgôr '3' a 6 (3%) gan fusnesau gyda sgôr o '1' neu '2'. Mae'r ffigurau hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn gan fod gweithredwyr busnesau bwyd bellach yn fwy cyfarwydd â'r cyfleuster hwn. Gan fod llawer o lwyfannau agregwyr (fel Just Eat, Deliveroo ac Uber Eats) hefyd yn gofyn am weithredwyr busnesau bwyd sydd â sgôr ddilys a safon ofynnol o '2' neu '3' i fasnachu ar eu llwyfannau, mae'n bosib mai dyma'r rheswm dros y cynnydd yn y ceisiadau hyn.

## Ceisiadau am Arolygiadau Ail-sgorio

10.14. Gall busnesau bwyd hefyd ofyn am arolygiad er mwyn ail-sgorio eu busnes o dan y CSHB. Mae'r mesur hwn yn rhoi'r cyfle i fusnesau wella eu sgoriau cyn eu harolygiad bwriadedig nesaf, os ydynt wedi rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith. Rhaid cynnal arolygiadau ail-sgorio dim hwyrach na thri mis ar ôl i gais ddod i law.

10.15. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyfrifo'r gost resymol ar gyfer arolygiadau ail-sgorio, ac mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cytuno ar y cyd ar y ffi ar gyfer arolygiad ail-sgorio, sef £180 ar hyn o bryd. Mae'r gost hon yn cael ei phennu a'i hadolygu gan awdurdodau lleol.


10.16. Rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru 611 o geisiadau am arolygiadau ail-sgorio. Mae'r rhain yn cynrychioli 7.4% o'r 8,312 o fusnesau bwyd sydd â sgôr o '0' i '4'. Dyma ganfyddiadau'r arolygiad:

- cafodd 94.1% (575) o'r busnesau hynny a ail-arolygwyd sgôr well

- cafodd 93.3% (570) sgôr well o ‘3’ neu uwch
- cafodd 52.5% (321) o’r rhai a ail-arolygwyd y sgôr uchaf o ‘5’
- cafodd 2.6% (16) o fusnesau sgôr is ar ôl cael eu hail-arolygu ac ni newidiwyd sgôr 3.3% (20) ohonynt.
- cwblhawyd 81.2% (496) o’r ail-arolygiadau o fewn y cyfnod gofynnol o dri mis.

10.17. Mae Ffigur 11 isod yn dangos y newid mewn sgoriau ar ôl cael arolygiad ail-sgorio ar draws busnesau bwyd yng Nghymru.

**Ffigur 11 – Sgoriau Cyn ac ar ôl Arolygiad Ail-sgorio**




10.18. Mae nifer y ceisiadau am arolygiadau ail-sgorio a ddaeth i law awdurdodau lleol rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023 o gymharu â 28 Tachwedd 2021 i 27 Tachwedd 2022 wedi cynyddu 205 (50.5%), o 406 o geisiadau i 611. Mae hyn yn awgrymu bod y defnydd o’r mesur diogelu hwn yn cynyddu a bod busnesau’n mynd i’r afael â’r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn eu harolygiad cychwynnol, gyda 94.1% o’r busnesau hynny a ail-arolygwyd yn cael sgôr uwch.

# 11. Effaith y CSHB


## Cydymffurfiaeth Busnesau Bwyd

11.1. Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2023, mae cyfran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio i raddau helaeth wedi aros yn gyson ar 96.7%. Er bod hyn yn dangos bod y CSHB yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gydymffurfiaeth busnesau, mae angen cydnabod bod rhai rheolaethau swyddogol a oedd wedi'u cynllunio gan awdurdodau lleol wedi'u gohirio o fis Mawrth 2020 yn unol â chyngor yr ASB fel y nodir ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn. Roedd gostyngiad yn nifer y busnesau bwyd sy'n aros am arolygiad, sef 2,013 yn ystod mis Tachwedd 2023 i lawr o 4,596 ym mis Awst 2021.

11.2. Mae cyfran y busnesau nad ydynt yn cydymffurfio wedi cynyddu ychydig o 3.3% i 3.4%. Mae'r newid yn y gyfran ar gyfer pob sgôr fel a ganlyn, ac fe'i dangosir yn Ffigur 12:

- Mae busnesau sydd â sgôr o '5' wedi cynyddu o 69.5% i 72.4%
- Mae busnesau sydd â sgôr o '4' wedi gostwng o 19.7% i 17.6%
- Mae busnesau sydd â sgôr o '3' wedi gostwng o 7.5% i 6.7%
- Mae busnesau sydd â sgôr o '2' wedi gostwng o 1.5% i 1.4%
- Mae busnesau sydd â sgôr o '1' wedi cynyddu o 1.7% i 1.8%
- Mae busnesau sydd â sgôr o '0' wedi cynyddu o 0.1% i 0.2%

## Ffigur 12 – Esblygiad Sgoriau dros Chwe Mis yng Nghymru – Tachwedd 2020 - 2023




11.3. Mae'r ASB wedi comisiynu adroddiadau ymchwil yn asesu lefelau arddangos sgoriau gan fusnesau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae manylion Archwiliad Arddangos y CSHB ac Arolwg Busnesau a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ar gael isod:

- Archwiliad Arddangos y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac Arolwg Busnesau 2022
- Archwiliad Arddangos y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac Arolwg Busnesau 2021

11.4. Mae'r ymchwil hwn i sut y caiff y Sgoriau Hylendid Bwyd eu harddangos wedi'i gynnal gan yr ASB ers 2011. Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwil yn 2020 oherwydd y mesurau rheoli a oedd ar waith i reoli lledaeniad COVID-19. Yn debyg i gylchau blaenorol yr ymchwil, roedd tri phrif amcan:

- darparu amcangyfrif cynrychioliadol o nifer y busnesau bwyd sy'n arddangos sgoriau hylendid bwyd
- archwilio'r rhesymau a'r sbardunau dros arddangos a pheidio ag arddangos sgoriau
- archwilio ymwybyddiaeth ac agweddau busnesau tuag at y CSHB

11.5. Mabwysiadwyd dull ymchwil deublyg i fodloni'r amcanion hyn a oedd yn cynnwys archwiliadau cudd mewn busnesau bwyd a chyfweliadau ffôn.

11.6. Mae'r ymchwil ddiweddaraf hon a gynhaliwyd yn 2022 yn dangos bod 91% o fusnesau a archwiliwyd yng Nghymru yn arddangos eu sgôr, sef cynnydd o 6% o gymharu ag ymchwil 2021. Yn ymchwil 2022, roedd 67% o fusnesau a archwiliwyd yn Lloegr yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd ac roedd 87% o fusnesau yng Ngogledd Iwerddon yn gwneud hyn.

11.7. Yng Nghymru, roedd ymchwil 2022 yn dangos nad oedd tua un o bob 10 o fusnesau yn arddangos eu sgôr mewn modd a oedd yn cydymffurfio. Yn gyffredinol, dywedodd y busnesau hynny nad oeddent yn arddangos eu sgôr oherwydd nad oedd unrhyw le addas i'w dangos y tu allan i'w safle.

11.8. Yng Nghymru, o'r busnesau a archwiliwyd, roedd 96% o fwytai a busnesau arlwyo yn arddangos eu sgôr, tra bod 81% o fusnesau manwerthu (er enghraifft archfarchnadoedd a siopau bwyd) yn arddangos eu sgôr.

## Ymwybyddiaeth Defnyddwyr

11.9. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr ASB arolwg Bwyd a Chi 2. Mae Bwyd a Chi 2 yn arolwg 'ystadegyn swyddogol' a gynhelir ddwywaith y flwyddyn a gomisiynir gan yr ASB i fesur gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr o ran diogelwch bwyd a materion bwyd eraill ymhlith oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel y'u cofnodir gan y defnyddwyr eu hunain.

11.10. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer Bwyd a Chi 2: Cylch 6 rhwng 12 Hydref 2022 a 10 Ionawr 2023. Cafwyd ymatebion gan 1,315 o ymatebwyr yng Nghymru. Roedd 928 o'r rhain ar-lein, a 387 wedi llenwi ar holiadur papur. Dyma'r prif ganfyddiadau ar gyfer Cymru:

- roedd 92% o'r ymatebwyr wedi clywed am y CSHB
- roedd 69% o'r ymatebwyr wedi clywed am y CSHB ac yn gwybod llawer neu ychydig amdano
- pan ddangoswyd llun o sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i'r ymatebwyr, dywedodd 91% eu bod wedi gweld y sticer o'r blaen
- roedd 59% o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (naill ai ar safle'r busnes neu ar-lein)
- roedd 48% o'r ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod bob amser yn gwirio'r sgôr wrth gyrraedd bwyty neu siop tecawê, neu'n gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser
- roedd 94% yn meddwl y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar eu safle

11.11. O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y CSHB, dywedodd y rhan fwyaf y bydden nhw'n dal i fwyta mewn bwyty neu o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o '4' (Da) (93%) neu '3' (Boddhaol ar y cyfan) (66%). Serch hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fydden nhw'n bwyta mewn bwyty nac o siop tecawê pe baen nhw'n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o '2' (Angen Gwella) (76%), '1' (Angen Gwella yn Sylweddol) (90%) neu '0' (Angen gwella ar frys) (92%).

11.12. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedden nhw'n meddwl y dylai busnesau sy'n cynnig gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd.

## Gwerth y CSHB

11.13. Fel rhan o'i gwaith ar y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (ABC), roedd yr ASB am ddeall yn fanylach sut roedd awdurdodau lleol, busnesau a

defnyddwyr yn teimlo am y CSHB presennol. Yn ogystal, roedd yr ASB am gasglu safbwyntiau defnyddwyr ar newidiadau posib i'r dull rheoleiddio. I'r diben hwn, comisiynodd yr ASB IPSOS UK i gynnal ymchwil ansoddol i archwilio safbwyntiau busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol am y CSHB.

11.14. Amlygodd ymchwil ag awdurdodau lleol fod gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar draws y tair gwlad safbwyntiau cadarnhaol ynghylch y CSHB presennol a'i rôl o ran cynyddu cysondeb ar gyfer rheoleiddio safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd. Ystyriwyd bod asesu safonau hylendid bwyd yn gyson yn rhan hanfodol o'r CSHB, ac yn sylfaenol i werth y CSHB. Er bod y cysondeb hwn yn cael ei ystyried yn gryfder yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, tynnodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol o Loegr sylw at rai gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y CSHB ei reoli.

11.15. Roedd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newidiadau i amlder arolygiadau yn seiliedig ar gydymffurfiaeth. Yn yr un modd, nid oedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol o Ogledd Iwerddon yn awyddus i leihau amlder arolygiadau yn seiliedig ar gydymffurfiaeth ar gyfer busnesau risg uwch. Yn Lloegr, roedd safbwyntiau ar leihau amlder arolygiadau yn seiliedig ar gydymffurfiaeth yn fwy cymysg, gan adlewyrchu profiadau cynrychiolwyr awdurdodau lleol o orfod blaenoriaethu adnoddau dros y blynyddoedd diwethaf.

11.16. Er bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol o Gymru yn unfrydol yn eu cefnogaeth i'r CSHB presennol, awgrymodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol o Loegr a Gogledd Iwerddon rai newidiadau. Bu awdurdodau lleol o Loegr yn trafod gwella'r CSHB drwy gyflwyno arddangosiad gorfodol o sgoriau'r CSHB ac adolygu'r mathau o fusnesau risg isel sydd wedi'u cynnwys yn y CSHB.

11.17. Canfu'r ymchwil busnes fod y rhan fwyaf o fusnesau, ar y cyfan, yn fodlon â'r system CSHB bresennol ac yn ei chael yn anodd awgrymu gwelliannau. Roedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau'n gysylltiedig â'r pryderon yr oedd

busnesau wedi'u codi'n flaenorol: sicrhau cysondeb, lleihau'r baich gweinyddol, a gwella dealltwriaeth defnyddwyr a busnesau o'r CSHB. Awgrymodd rhai busnesau hefyd berthynas fwy cydweithredol rhwng rheoleiddwyr a busnesau fel ffordd i wella effeithiolrwydd y CSHB.

11.18. Yn olaf, nododd ymchwil gyda defnyddwyr fod y CSHB yn cael ei ystyried yn werthfawr, er bod ymwybyddiaeth a defnydd yn amrywio. Roedd sgoriau'r CSHB yn cael eu hystyried yn ffynhonnell o wybodaeth ddibynadwy am safonau hylendid bwyd, gan roi sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch diogelwch bwyd. Roedd bod yn gyfarwydd â busnes bwyd a maint y dewis lleol yn bwysicach i rai wrth ddewis ble i fwyta. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyson y dylai arddangos sgoriau'r CSHB fod yn orfodol, gan gysylltu hyn â thegwch a thryloywder. Fodd bynnag, nid oedd llawer o bobl ar draws y tair gwlad yn ymwybodol nad yw'n orfodol arddangos sgoriau yn Lloegr.

## 12. Cysondeb

12.1. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd adolygu’r broses o weithredu’r CSHB yn eu hardal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu’n deg ac yn gyson.

12.2. Mae’n hanfodol bod swyddogion awdurdodedig o fewn awdurdodau lleol ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu’r CSHB yn gyson er mwyn sicrhau chwarae teg i fusnesau bwyd a darparu gwybodaeth ystyrlon i ddefnyddwyr. Gan fod sgoriau hylendid bwyd yn cael eu cyfrifo o sgoriau a roddwyd gan swyddogion diogelwch bwyd gan ddefnyddio’r System Sgorio Hylendid Bwyd a nodir yn y Cod, mae cysondeb o ran sgorio yn hollbwysig.

12.3. Mae monitro cysondeb yn rhan o swyddogaeth yr ASB. Mae’r canllawiau statudol sy’n berthnasol yng Nghymru yn nodi y gall hyn gynnwys datblygu a threfnu ymarferion cysondeb cenedlaethol.

12.4. Mae’r ASB wedi cynnig cyfle i swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru loywi eu sgiliau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi wedi’u hariannu a hwyluso Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

12.5. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y pumed, chweched a’r seithfed ymarfer cysondeb cenedlaethol. Mae’r ymarferion ar-lein, sy’n seiliedig ar senarios, yn darparu deunyddiau ymarfer ar gyfer ymyriadau ffug, a gofynnir i swyddogion awdurdodau lleol ystyried y dogfennau a gwneud y canlynol:

- penderfynu pa sgoriau y dylid eu rhoi ar gyfer Hylendid, Strwythur a Hyder mewn Rheolwyr
- cyfrifo’r sgôr hylendid bwyd cyfatebol

12.6. Dim ond un awdurdod lleol (4.5%) yng Nghymru a gymerodd ran yn y pumed ymarfer cysondeb cenedlaethol. Roedd disgwyl hyn oherwydd y pandemig parhaus, gydag adnoddau mewn llawer o Dimau Bwyd yn cael eu dargyfeirio i ddiogelu eu cymunedau a rheoli lledaeniad y clefyd.

12.7. Roedd disgwyl ymateb tebyg i'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y chweched ymarfer cysondeb a oedd yn rhedeg rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, a hynny oherwydd y pandemig parhaus ac effaith yr amrywiad Omicron ddiwedd 2021/dechrau 2022. Roedd adnoddau mewn llawer o Dimau Bwyd yn dal i gael eu dargyfeirio i ddiogelu eu cymunedau a rheoli lledaeniad y clefyd, fodd bynnag, cymerodd 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru (50%) ran yn yr ymarfer hwn.

12.8. Cynhaliwyd y seithfed ymarfer cysondeb rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn ymdrin â'r gwaith adfer parhaus yn dilyn y pandemig, cymerodd 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru ran (91%).

12.9. Ni chynhaliodd yr ASB ymarfer cysondeb ffurfiol yn ystod 2023, ond fel mesur lliniaru, cytunwyd â Grŵp Llywio CSHB Cymru i ddarparu dau ymarfer heb eu defnyddio o'r blaen i awdurdodau lleol fel y gallent gynnal eu hymarfer cysondeb eu hunain o fewn eu hawdurdod neu ardal. Roedd y rhain ar gael ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu.

12.10. Oherwydd natur ymarferion ar sail senarios lle mae gofyn i swyddogion ffurfio barn ar sail gwybodaeth gyfyngedig, mae'n naturiol bod amrywiaeth yn y sgoriau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Nid oedd swyddogion awdurdodau lleol yn gallu ceisio eglurhad pellach gan weithredwr y busnes bwyd, fel y gallent mewn arolygiad go iawn. Er mwyn sicrhau bod y CSHB yn cael ei weithredu'n gyson, mae'r ASB yn annog awdurdodau lleol i fyfyrio ar y disgrifyddion yn y Cod wrth sgorio busnesau bwyd.

12.11. Mae canfyddiadau manwl o bob un o'r ymarferion cysondeb hyn sy'n cael eu cynnal gan yr ASB ar gael mewn adroddiadau cryno ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu.

12.12. Cynigiodd yr ASB chwe gweithdy hyfforddi rhithwir i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sgorio busnesau bwyd yng Nghymru rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Rhagfyr 2021. Cyflwynwyd pedair awr o hyfforddiant yn seiliedig ar sicrhau cysondeb y CSHB i 173 o swyddogion ar draws 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

12.13. Rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023, cynigiodd yr ASB bum gweithdy hyfforddi rhithwir i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sgorio busnesau bwyd yng Nghymru. Cyflwynwyd pedair awr o hyfforddiant yn seiliedig ar sicrhau cysondeb y CSHB i 147 o swyddogion ar draws 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru. I ddechrau ymrwymodd yr ASB i ddarparu pedwar gweithdy, ond oherwydd y galw, cynhaliwyd y pumed ym mis Ionawr 2023. Er mwyn sicrhau bod y CSHB yn cael ei gymhwyso'n gyson gan swyddogion awdurdodedig o fewn ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, cymerodd gontractwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ran yn y gweithdai hefyd.

12.14. Cyflwynodd y gweithdai nifer o senarios damcaniaethol y gallai swyddogion eu hwynebu yn ystod arolygiad. Roedd y senarios yn ymdrin ag amrywiaeth o fathau o fusnesau bwyd a sefyllfaoedd o gydymffurfio/diffyg cydymffurfio, gan roi cyfle i grwpiau bach o swyddogion drafod a sgorio'r senarios fesul un gan ddefnyddio'r System Sgorio Hylendid Bwyd a nodir yn y Cod. Roedd y senarios yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thair elfen y broses arolygu sy'n llywio'r sgôr hylendid bwyd. Dyma'r elfennau:

- lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd
- gofynion strwythurol
- hyder mewn gweithdrefnau rheoli

12.15. Roedd yr ASB wedi cynnig darparu gweithdai hyfforddi rhithwir pellach i swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2023, ond nid oedd hyn yn bosib. Er i'r ASB gyhoeddi tendr ffurfiol ar ddau achlysur gwahanol, nid oedd modd dod o hyd i gyflenwr addas i gyflwyno'r gweithdai ar ei rhan. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod diwethaf Grŵp Llywio CSHB Cymru ar 14 Tachwedd 2023, a bydd y Grŵp Llywio yn arwain trafodaethau pellach ynghylch cynnal unrhyw weithdai yn y dyfodol.

### Argymhelliad 2:

Bydd yr ASB yn parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth statudol er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y CSHB yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

# 13. Datblygiadau'r CSHB yn y dyfodol

## Arddangos Sgoriau Ar-lein

13.1. O ystyried bod mwy a mwy o bobl yn archebu ar-lein a datblygiad modelau busnes digidol newydd, mae arddangos ar-lein yn gyfle allweddol i'r CSHB. Mae'r ASB yn cydnabod bod y llwyddiant parhaus o ran cyflawni amcanion y CSHB yn dibynnu ar ddefnyddwyr yn cael mynediad at y sgoriau yn y llefydd cywir ac ar yr amser cywir er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus.

13.2. Mae gwerthiannau bwyd ar-lein yn duedd gynyddol o ran cyflenwi a gwerthu bwyd, ac mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn prynu bwyd ar-lein. O'r herwydd, efallai na fydd ganddynt fynediad ar unwaith at wybodaeth am sgoriau ar lwyfannau ar-lein. Bydd darparu gwybodaeth am y sgoriau ar-lein yn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr, yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r CSHB ymhellach, ac yn sicrhau bod gwybodaeth am hylendid bwyd yn cael ei darparu mewn modd cyson.

13.3. Er mwyn annog busnesau i arddangos eu sgoriau ar-lein yn wirfoddol, mae'r ASB wedi diweddaru'r delweddau sgorio ar-lein er mwyn bodloni safonau technoleg fodern. Mae'r ASB hefyd wedi darparu pecyn cymorth digidol i fusnesau i'w gwneud hi'n hawdd iddynt arddangos eu sgôr ar-lein. Gall busnesau hefyd fewnosod cod javascript o'u sgôr ddwyieithog o wefan yr ASB yn hytrach na lawrlwytho'r ddelwedd a'i storio'n lleol. Dim ond unwaith y bydd angen gwneud hyn, ac yna bydd y ddelwedd yn diweddaru'n awtomatig ar lwyfannau digidol pan wneir newidiadau i borth y CSHB, ac felly mae'n weithrediad untro yn unig.

13.4. Mae'r ASB hefyd yn darparu mynediad rhaglennol am ddim at y data sgoriau trwy ein Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API), sy'n galluogi datblygwyr i drosoli'r data i ddarparu eu gwasanaethau a'u gwefannau eu hunain (fel apiau trydydd parti sy'n darparu cyfleuster chwilio am sgoriau). Mae'r tri phrif

agregwr bwyd ar-lein (Deliveroo, Just Eat, ac Uber Eats) hefyd yn defnyddio'r rhaglen hon, sy'n golygu bod y sgoriau bob amser yn gywir ar y llwyfannau hyn cyn belled â'u bod yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

13.5. Gyda mwy o ddefnyddwyr yn dueddol o brynu bwyd ar-lein, mae pŵer cyfreithiol yn bodoli yn y Ddeddf i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cefnogi datblygiad y CSHB i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar-lein. Bydd hyn yn cynyddu hygyrchedd yr wybodaeth hon ymhellach ac yn cynyddu tryloywder o ran safonau hylendid i'r farchnad archebu bwyd ar-lein.

13.6. Mae'r ASB yn bwriadu gofyn am ganiatâd Gweinidogion Cymru i ddechrau datblygu cynigion i ymestyn cwmpas y CSHB statudol a fydd yn cyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sy'n ei gwneud yn orfodol i weithredwyr busnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar-lein.

13.7. Bydd angen i unrhyw gynigion fod yn gredadwy ac yn ystyrlon i ddefnyddwyr tra bod yn ymarferol ac yn gymesur i fusnesau bwyd eu gweithredu, a chaniatáu ar gyfer gorfodi cyson gan awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei asesu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canlyniadau'n bodloni'r nodau hyn.

## Argymhelliad 3:

Mae'r ASB yn cydnabod y cyfle i randdeiliaid gydweithio i ddatblygu cynigion i ehangu cwmpas y CSHB statudol a fydd yn anelu at gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sy'n ei gwneud yn orfodol i weithredwyr busnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar-lein.

# 14. Casgliadau

14.1. Yn ystod cyfnod tair blynedd yr adroddiad hwn, mae pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith ar ddarpariaeth rhaglenni arolygu arferol awdurdodau lleol a gweithrediad y CSHB. Cyn y pandemig, roedd disgwyl i awdurdodau lleol gynnal yr holl reolaethau swyddogol a bennir mewn deddfwriaeth, ond yn ystod y pandemig, dargyfeiriwyd adnoddau awdurdodau lleol oddi wrth Dimau Bwyd i weithgareddau yn ymwneud â lleihau lledaeniad COVID-19.

14.2. Mae'r Cynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023 a bennwyd gan yr ASB ar gyfer ailddechrau'r gwaith o gynnal arolygiadau rheolaidd yn unol â'r Cod wedi cael effaith ar weithrediad arferol y CSHB. Fodd bynnag, yn unol â'r disgwyliadau yn y Cynllun, mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i ail-alinio â'r amlder ymyrryd a darpariaethau eraill a nodir yn y Cod, er gwaethaf yr heriau niferus a wynebwyd yn ystod y cyfnod adfer, gan gynnwys pwysau ar adnoddau.

14.3. Oherwydd y gwaith cadarnhaol a wnaed gan awdurdodau lleol, ac oherwydd iddynt fodloni'r cerrig milltir a osodwyd yn y Cynllun i raddau helaeth, penderfynwyd dod â'r Cynllun i ben ar 31 Mawrth 2023.

14.4. Drwy gydol cyfnod tair blynedd yr adroddiad hwn, mae'r ASB wedi parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'u cefnogi. Gan fod y CSHB wedi'i danategu gan waith arolygu awdurdodau lleol, cafodd effeithiau ar arolygiadau yn ystod y pandemig effaith ar y CSHB hefyd. Rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021, cafodd 5,305 o fusnesau eu sgorio yng Nghymru. Mae hyn wedi cynyddu 166% i 14,112 o fusnesau, gydag 8,807 yn fwy yn cael eu sgorio rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023.

14.5. Mae tystiolaeth a gasglwyd i gefnogi'r adolygiadau blynyddol ers cyflwyno'r CSHB statudol yn 2013 wedi canfod yn gyson fod gweithredwyr busnesau bwyd yn parhau i ddefnyddio'r broses apelio a mesurau diogelu eraill a ddarperir

gan y CSHB. Mae'r 75 o apeliadau a ddaeth i law awdurdodau lleol rhwng 28 Tachwedd 2022 a 27 Tachwedd 2023 yn cyfrif am lai nag 1% o'r 8,312 o fusnesau a gafodd sgôr rhwng '0' a '4' ym mis Tachwedd 2023. Yn achos y gweithredwyr busnesau bwyd hynny sy'n gwneud apêl, mae 78.7% o'r apeliadau wedi arwain at beidio newid sgôr busnes yn dilyn penderfyniad awdurdod lleol. Mae pob apêl wedi'i hystyried gan swyddog nad oedd yn ymwneud â dyfarnu'r sgôr wreiddiol. Byddai hyn yn awgrymu bod y broses o ystyried apeliadau yn wrthrychol.

14.6. Er mai dim ond 30.5% o ymyriadau hylendid bwyd dyledus a gyflawnwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, wrth adolygu data'r CSHB, nid yw'r ASB yn gweld tystiolaeth feintiol ar hyn o bryd o ostyngiad mewn cyfraddau cydymffurfio busnesau. Mae'r data'n dangos bod canran y sefydliadau bwyd a gafodd sgôr o '3' neu'n well wedi aros yr un peth ar 96.7% ym mis Tachwedd 2020 o gymharu â mis Tachwedd 2023. Mae cyfran y sefydliadau â'r sgôr uchaf o '5' wedi cynyddu o 69.5% ym mis Tachwedd 2020 i 72.4% ym mis Tachwedd 2023. Bydd yr ASB yn parhau i fonitro cynnydd awdurdodau lleol unigol yn hyn o beth.

14.7. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr ASB yn darparu tystiolaeth bod y CSHB yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, gyda 91% o ddefnyddwyr yn adnabod sticeri sgôr a 92% wedi clywed am y CSHB. Mae cyfraddau arddangos busnesau bwyd hefyd wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, gydag 91% o sefydliadau yn arddangos sgoriau yn unol â gofynion y Ddeddf.

14.8. Mae tystiolaeth o werthusiad o'r CSHB yn dangos bod mwy o dryloywder yn grymuso defnyddwyr, sydd yn ei dro yn cymell busnesau i wella a chynnal cydymffurfiaeth. Mae cyfran y busnesau â'r sgôr hylendid bwyd uchaf wedi parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gyrraedd 72.4% ym mis Tachwedd 2023 o gymharu â 69.5% ym mis Tachwedd 2020.

14.9. Mae awdurdodau lleol wedi cydweithio â’r ASB i sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud yn siŵr y caiff sgoriau eu dyfarnu’n gyson. Yn ystod cyfnod heriol i awdurdodau lleol, roedd y nifer o swyddogion a gymerodd ran mewn gweithdai cysondeb a’r Ymarferion Cysondeb yn dangos y gwerth parhaus a roddir ar y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy’n hyrwyddo cysondeb wrth roi sgoriau. Mae hyn yn sicrhau cadernid a gwytnwch y CSHB. Mae cysondeb wrth ddyfarnu sgoriau o dan y CSHB yn allweddol i'w lwyddiant ac yn sicrhau tryloywder, tegwch a chydraddoldeb i fusnesau.

14.10. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod wedi’u hymrwymo’n gadarn i gynnal y CSHB ac maent yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yn gweithredu’r CSHB yn unol â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, er gwaethaf y pwysau arnynt dros y blynyddoedd diwethaf.

14.11. Mae Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a’r ASB yn parhau i gefnogi gweithrediad effeithiol a chyson y CSHB yng Nghymru ac yn cyflawni eu swyddogaethau fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.

14.12. Mae’r adroddiad hwn wedi amlygu nifer o argymhellion ar gyfer datblygu’r CSHB yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys arddangos sgoriau ar-lein wrth i fwy o ddefnyddwyr brynu bwyd ar-lein. Mae hwn yn gyfle i’r CSHB a bydd yn cael ei archwilio ymhellach. Bydd angen i unrhyw gynigion fod yn gredadwy ac ystyrlon.

## 15. Argymhellion

15.1. Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol mewn perthynas â gweithrediad parhaus y CSHB gorfodol a'r system apelio yng Nghymru ar gyfer 2024. Mae'r rhain i gyd yn amodol ar gyllid neu adnoddau sydd ar gael:

**Argymhelliad 1:**

Bydd yr ASB yn cynnal adolygiad o'r canllawiau statudol gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, argymhellir bod yr ASB yn sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol i adolygu'r canllawiau, er mwyn sicrhau y gallant gynorthwyo swyddogion awdurdodedig i roi'r Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig ar waith yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 2:**

Bydd yr ASB yn parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth statudol er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y CSHB yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

**Argymhelliad 3:**

Mae'r ASB yn cydnabod y cyfle i randdeiliaid gydweithio i ddatblygu cynigion i ehangu cwmpas y CSHB statudol a fydd yn anelu at gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sy'n ei gwneud yn orfodol i weithredwyr busnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar-lein.

# Atodiad 1 – Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion o Adroddiadau Cynharach

## 2021 – Adolygu Gweithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

**Argymhelliad 1** – Mae'r ASB, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW) a Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW) yn cydweithredu i ddatblygu blaengynllun ar gyfer arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd yn y dyfodol.

**Wedi'i gwblhau** – Nod yr argymhelliad hwn oedd cefnogi adfer rheolaethau swyddogol ar fwyd yn dilyn ymateb awdurdodau lleol i'r pandemig ac i sicrhau bod yr effaith ar y CSHB yn cael ei hystyried. Sefydlwyd is-grŵp adfer SSAFW a lywiodd map ffordd cynllun adfer yr ASB.

**Argymhelliad 2** – Mae'r ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n rhoi sgôr i fusnesau bwyd o dan y CSHB yn parhau i gymryd rhan mewn ymarferion cysondeb.

**Wedi'i gwblhau** – Cynigiodd yr ASB bum gweithdy hyfforddi rhithwir i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sgorio busnesau bwyd yng Nghymru yn ystod mis Tachwedd 2021. Mewn pum gweithdy bedair awr o hyd, cyflwynwyd hyfforddiant yn seiliedig ar sicrhau cysondeb y CSHB i 178 o swyddogion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r digwyddiadau hyn, gan gadarnhau manteision cyfleoedd hyfforddi rhithwir yn ystod y pandemig.

**Argymhelliad 3** – Mae'r ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Cymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y CSHB.

**Wedi'i gwblhau** – Cynhaliwyd adolygiad o gylch gorchwyl Grŵp Llywio CSHB Cymru ym mis Mehefin 2021. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad y dylid cynnal cyfarfodydd rhithwir, ddwywaith y flwyddyn, gan ymestyn yr aelodaeth, sy'n cynnwys swyddogion yr ASB a Llywodraeth Cymru, i gynnwys cynrychiolydd o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith yn ystod 2021 ar 16 Mehefin 2021 a 23 Tachwedd 2021 i gynorthwyo gyda gweithrediad cyson y CSHB, y gwaith gorfodi a datblygu yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn parhau'n ddilys, yn gyfredol ac yn deg.

**Argymhelliad 4** – Mae'r ASB yn darparu unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020 ar y cyfle cyntaf posib.

**Wedi'i gwblhau** – Oherwydd bod pandemig COVID-19 wedi parhau am weddill 2020 a thrwy gydol 2021, ac i adlewyrchu cyngor yr ASB y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar flaenoriaethu gweithgareddau i gefnogi'r Cynllun, nid yw'r ASB wedi gofyn i awdurdodau lleol am ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2019 a 27 Tachwedd 2020. Mae'r data a ddarparwyd yn adroddiad Chwefror 2021 yn dal i fod ar gael.

**Argymhelliad 5** – Mae'r ASB yn gofyn am wybodaeth fanylach gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag erlyniadau yn eu data sy'n berthnasol i'r CSHB i wella lefel yr adrodd a chaniatáu gwell dadansoddi.

**Wedi'i gwblhau** – Mae'r ASB wedi cael gwybodaeth fanylach am erlyniadau mewn perthynas â'r argymhelliad hwn a bydd yn parhau i fonitro arolygon awdurdodau lleol yn y dyfodol i sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei chynnwys ar gyfer unrhyw erlyniadau a weithredir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Argymhelliad 6** – Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i sicrhau bod datrysiadau digidol a ddatblygir i gefnogi CSHB ar-lein yng Nghymru yn bodloni Safon Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru.

**Parhaus** – Bydd yr ASB yn ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag unrhyw waith a wneir ar ddatblygu cynigion i ehangu cwmpas y CSHB statudol i'w gwneud yn orfodol i weithredwyr busnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar-lein.

**Argymhelliad 7** – Mae'r ASB yn ystyried y CSHB statudol a safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wrth ystyried unrhyw rai o'i chynigion ar ddyfodol y system reoleiddio.

**Wedi'i gwblhau** – Fel y manylir ym Mhennod 11, fel rhan o'i gwaith ar y rhaglen ABC, comisiynodd yr ASB IPSOS UK i gynnal ymchwil ansoddol i archwilio safbwyntiau busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol am y CSHB. Mae'r adroddiadau ar werth y CSHB yn manylu sut mae awdurdodau lleol, busnesau a defnyddwyr yn teimlo am y CSHB presennol ac maent hefyd yn casglu safbwyntiau defnyddwyr ar newidiadau posib i'r dull rheoleiddio.

## 2022 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

**Argymhelliad 1** – Bod yr ASB ystyried defnyddio dulliau digidol mwy rhyngweithiol wrth gyflwyno gweithgareddau cysondeb.

**Wedi'i gwblhau** – Mae'r ASB wedi cynnal pum gweithdy cysondeb rhithwir ledled Cymru gyda 147 o swyddogion yn bresennol yn 2022/23. Bydd yr ASB yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu a threfnu digwyddiadau cysondeb yn ystod 2023/24. Bydd yr ASB hefyd yn ystyried pa dechnoleg ddigidol a allai fod ar gael i gynnal ymarferion cysondeb mwy rhyngweithiol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2** – Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y CSHB yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

**Wedi'i gwblhau** – Mae'r ASB wedi cynnal ymarferion cysondeb cenedlaethol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2022. Cynhaliwyd yr ymarfer cysondeb gan 20 awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd yr ASB yn parhau i roi cymorth i swyddogion awdurdodau lleol sy'n sgorio busnesau o dan y CSHB.

**Argymhelliad 3** – Bod yr ASB yn sicrhau yn ystod 2022/23 bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu cwblhau.

**Parhaus** – Bydd yr ASB yn adolygu unrhyw argymhellion sy'n weddill ac yn datblygu'r rhain yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 4** – Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ystyried gwerth parhaus adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar weithredu'r broses apelio.

**Parhaus –** Bydd yr ASB yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn 2023/24 i archwilio'r argymhelliad hwn ymhellach.

## 2023 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

**Argymhelliad 1** – Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio CSHB Cymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y CSHB. Bod yr ASB yn adolygu amlder, aelodaeth a Chylch Gorchwyl y grŵp i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n llwyddiannus.

**Wedi'i gwblhau** – Mae'r ASB wedi parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio CSHB Cymru, gan ddarparu Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y ddau gyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023 a 14 Tachwedd 2023. Mae'r grŵp cyswllt gyda chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithio ar y cyd drwy gydol 2023, gan drafod materion perthnasol mewn perthynas â datblygu'r CSHB.

**Argymhelliad 2** – Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y CSHB yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

**Wedi'i gwblhau** – Ni chynhaliodd yr ASB ymarfer cysondeb ffurfiol yn ystod 2023, ond fel mesur lliniaru, cytunwyd â Grŵp Llywio CSHB Cymru i ddarparu dau ymarfer heb eu defnyddio o'r blaen i awdurdodau lleol fel y gallent gynnal eu hymarfer cysondeb eu hunain o fewn eu hawdurdod neu ardal. Mae'r ASB yn annog awdurdodau lleol i adolygu a thrafod sampl o adroddiadau arolygu yn rheolaidd o fewn timau, ac yn annog Grwpiau Cyswllt i gynnal ymarferion cysondeb ychwanegol o bryd i'w gilydd.

**Argymhelliad 3** – Bod yr ASB yn adolygu canlyniadau'r seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn gweithio gyda Grŵp Llywio CSHB Cymru i nodi'r angen am unrhyw gefnogaeth neu ganllawiau ychwanegol yn ôl yr angen.

**Wedi'i gwblhau** – Cynhaliwyd y seithfed ymarfer cysondeb rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn ymdrin â'r gwaith adfer parhaus yn dilyn y pandemig, cymerodd 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru ran (91%) . Y canlyniad disgwyliedig ar gyfer y senario oedd sgôr hylendid bwyd o '3'. Rhoddodd 65% o'r 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru a gymerodd ran y sgôr hwn. Mae canlyniadau manwl ar gael a bydd yr ASB yn parhau i ymgysylltu â Grŵp Llywio CSHB Cymru am unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a hynny er mwyn diweddaru canllawiau a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 4** – Bod yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yn adolygu ac yn diwygio'r Canllawiau Statudol yn 2023 ar ran Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen. Bydd y canllawiau wedi'u diweddaru yn helpu swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau cysylltiedig yn llwyddiannus.

**Parhaus** – Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, mae'r ASB yn bwriadu adolygu a diwygio'r Canllawiau Statudol ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r ASB yn bwriadu sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol i adolygu'r canllawiau, er mwyn sicrhau y gallant gynorthwyo swyddogion awdurdodedig i roi'r Ddeddf a'r Rheoliadau cysylltiedig ar waith yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 5** – Bod yr ASB yn parhau i weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i adolygu cysondeb yr adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar y broses o weithredu'r broses apelio yng Nghymru.

**Parhaus** – Bydd yr ASB yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn 2024/25 i adolygu pa mor rheolaidd yw adroddiadau ac i archwilio'r argymhelliad hwn ymhellach.

**Argymhelliad 6** – Bod yr ASB yn sicrhau bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu symud ymlaen yn ystod 2023/24.

**Parhaus** – Bydd yr ASB yn adolygu unrhyw argymhellion sy’n weddill ac yn datblygu’r rhain yn ôl yr angen, os bydd eu hangen.